tafod elái

www.tafelai.com

Mai 2005 **Pris 60c** **Rhif 197**

Ysgol Newydd yn Plesio

Symudodd yr athrawon a'r plant o Ysgol Gymraeg Llantrisant ar ben y bryn i ysgol newydd sbon yng Nghefn Hendy ar 14 Ebrill.

Bu cryn baratoi ac edrych ymlaen at y diwrnod mawr ac roedd pawb wrth eu bodd yn yr ysgol newydd. Am y tro cyntaf mae'r plant yn cael cyfle i fwynhau ar iard chwarae mawr a lle i gicio pêl yn saff. Mae'r dosbarthiadau i gyd yn braf gyda'r holl gyfleusterau modern a neuadd bwrpasol.

Mae'r adeilad ar dri llawr gyda lifft ar gyfer yr anabl. Defnyddir 8 dosbarth ar gyfer y 215 o blant sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae tair ystafell ddosbarth ychwanegol er mwyn i'r ysgol ehangu.

Mae'r ysgol hefyd yn ganolfan gymdeithasol i'r ardal ac yn barod mae Menter Iaith wedi agor Clwb Carco yn yr ysgol.

Mrs Siw Thomas, y Brifathrawes, gyda'r plant yn yr ysgol newydd

05

Eisteddfod yn y Bae

Mae Eisteddfod yr Urdd eleni yn agos iawn i'n hardal. Cofiwch fynd yno i fwynhau'r hwyl a gwethfawrogi ieuenctid Cymru ar eu gorau.

Rhagor ar dudalen 15.

GWYNFOR EVANS 1912 - 2005
(Detholiad)

Anial oedd gwlad ei eni, - am hynny
Y mynnodd fynd ati
I'w throi yn ardd a'i thrin hi.

Bu'n hau ar y bannau hyn, - hau breuddwyd
Ar bridd garw'i gyd-ddyn
Fel daear heb flodeuyn.

Heuwr rhyddid ar ffriddoedd - ei hen wlad
Heb ganlyn tyrfaoedd;
Heuwr ym mhob storom ydoedd.

Gwybu'r gwawd lle gwibiai'r gwynt, - wynebodd
Anobaith y cerrynt
Gan barhau i hau ar hynt.

Geraint Lloyd Owen

Teulu Twm yn dathlu wrth Gerdded

Dewisodd Teulu Twm, criw ifanc Tabernacl Efail Isaf, benwythnos olaf y tymor rygbi rhyngwladol ar gyfer eu hymgyrch i godi arian. Dyma nhw yn dathlu buddugoliaeth wrth i Gymru ennill y Gamp Lawn ar ddiwedd y gêm yn erbyn yr Iwerddon. Rhagor ar dudalen 3.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 10 Mehefin 2005
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
1 Mehefin 2005

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad
Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

CLWB Y DWRLYN

Celf yn y Bae

Ymweld â stiwdio
artist enwog
Nos Wener
20 Mai

Ffoniwch 029 20890040
i drefnu lle.

Merched y Wawr Cangen y Garth

Taith i'r
Ardd Fotaneg
ac Aberglasne
ar ddydd Sadwrn
14 Mai 2005
Mynd mewn ceir
Manylion - 01443 228196

TI A FI BEDDAU
Bob Bore Mercher
10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob Dydd Mawrth
10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

TI A FI CREIGIAU
Prynhawn Llun 1.30 - 3pm
a Bore Gwener 10 - 11.30am
Neuadd y Sgowtiaid,
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 029 20890009

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a Iau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener
9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

Cynllun PONTIO CYD

Ga i ar ran CYD sôn gair neu ddau am gynllun a fu'n gymorth mawr i ddysgwyr feistroli'r iaith. Yn Aberystwyth beth amser yn ôl, lansiodd Trefnydd CYD, Jaci Taylor, brosiect i geisio helpu oedolion fu'n dysgu'r Gymraeg i gymathu â'r gymdeithas leol.

Apeliwyd am wirfoddolwyr i gynnig awr neu ddwy o'u hamser i fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn achlysurol. Y syniad wedyn oedd bod y gwirfoddolwyr hyn yn chwarae rôl *mentor* ac yn barod i hebrwng dysgwyr i weithgareddau Cymraeg yn y gymuned - eu tywys a sicrhau eu bod yn dilyn yr hyn oedd yn digwydd. Drwy'r gwasanaeth yma, gwelwyd dysgwyr yn ennill hyder ac yn barod i arfer eu hiaith fabwysiedig mewn sefyllfaoedd naturiol.

Mae'r tri Chonsortiwm Cymraeg i Oedolion (Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, Gwent) yn awyddus i efelychu llwyddiant y prosiect hwn yn y De-ddwyrain. I'r perwyl hwn, mae Jaci'n rhoi cyflwyniad i gynrychiolwyr y Consortia yng Nghanolfan Oedolion Aman ddydd Iau 19 Mai.

Pe carech gael mwy o wybodaeth am y prosiect yna, ffoniwch 01443 402867. Y gobaith yw, creu bas-data o Gymry Cymraeg yn yr ardal fydd yn barod i fynd i annerch grwpiau o ddysgwyr yr ardal i gynnig eu gwasanaeth fel tywyswyr/mentoriaid. Felly beth amdani? Chi sydd newydd ymddeol neu beth am rieni ifanc fyddai'n barod i fynd fel pâr - a dweud y gwir unrhyw un ohonoch sydd wedi darllen hyd yma.

Colin Williams

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Noson gyda
Danny Grehan
yn
Y Draenog, Pontyclun
Nos Wener, 20 Mai
Ffôn: 01443 218077

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

ACHUB Y PLANT

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Jess Mills, o Gronfa Achub y Plant, sy'n gweithio gyda'r plant yn y Ganolfan Hamdden, wedi bod wrthi yn gwneud ffilm gyda chriw o bobl ifanc. Y bobl ifanc eu hunain a wnaeth y ffilm a nhw sy'n siarad. Gwahoddwyd nifer o bobl i'r Ganolfan Hamdden Nos Lun Ebrill l8ed i weld y ffilm. Dangoswyd agweddau ar fywyd pobl ifanc yn y Gilfach, y pethau y maent yn hoffi a'r pethau nad ydyn nhw mor hoff ohonynt ac ar y diwedd roedd rhestr o bethau i wella bywyd i'r ifanc. Y Bwrdd Nwy a dalodd gostau'r Ffilm. Agorwyd y noson gyda gair o groeso gan Mr Richard Powell, Cyfarwyddwr Rhaglen Cronfa Achub y Plant yng Nghymru ac yna dangoswyd y ffilm. Ar ôl gweld y ffilm cafwyd sesiwn o Holi ac Ateb ac yna cyflwynwyd gwobrau i'r bobl ifanc gan Angela Basset Jones o'r Bwrdd Nwy. Diolch i'r Bwrdd Nwy ac i Gronfa Achub y Plant am eu cefnogaeth a llongyfarchiadau i Jess Mills am y gwaith mae hi'n gwneud gyda Chriw Gilfach.

CYMDEITHAS DYFRLIW

Cynhaliodd y Gymdeithas Dyfrliw eu trydedd Arddangosfa yn y Ganolfan ddydd yn y Stryd Fawr o Ebrill l9ed i'r 22ain. Roedd pawb yn rhyfeddu at safon uchel y gwaith a thalent ein cyd-bentrefwyr.
Gwahoddwyd y Dosbarth Cwiltio i ddangos eu cwiltiau a bu Mr Wyndham Jones yn dangos ei ffotograffau o'r cwm ac roedd DVD ohonynt ar werth. Diolch yn fawr a llongyfarchiadau i'r Gymdeithas Dyfrliw am Arddangosfa o safon uchel.

YN 90 OED

Llongyfarchiadau i Mrs Rainee Bryant, Heol Abercerdin ar ddathlu ei phenblwydd yn 90oed. Mae Mrs Bryant yn weithgar iawn ac yn aelod o'r Dosbarth Gwnio ac yn hyfforddi y Dosbarth Cwiltio sy'n gwneud cwiltiau traddodiadol y De ar ffrâm. Dymunwn yn dda iddi.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Y Cwis Llyfrau Cymraeg

Llongyfarchiadau i dimau cwis llyfrau'r ysgol. Daeth y tîm dan 12 oed yn ail agos iawn, ond llwyddodd y tîm dan 10 i ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth ranbarthol. Pob lwc iddynt yn y rownd derfynol yn Aberystwyth ym mis Mehefin.

"Y Criw Craff"

Ar Ebrill y 18fed fe fu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â "Criw Craff Cymru" gan ddysgu am waith nifer o wasanaethau a mudiadau pwysig.

Pêl-droed

Bu tîm o fechgyn Blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnameint yr Urdd ar Ebrill yr ugeinfed. Er iddynt chwarae'n dda, fe gollon nhw yn y rownd derfynol. Da iawn chi fechgyn, a gwell lwc y tro nesaf.

Adran Feithrin yr Ysgol Newydd

Uned dan 5

Thema'r Uned dan 5 y tymor hwn yw "Pobl sy'n ein helpu." Mae'r plant yn edrych ymlaen at gwrdd â rhai o'r bobl hyn, yn ystod y tymor.

Teulu Twm yn Cerdded Dros Dlodi

Diwedd y daith ar y bore Sul tu allan i Gapel y Tabernacl, Efail Isaf

Dyma lun o Deulu Twm ar benwythnos y daith gerdded noddedig 'Camu Dros Dlodi' i gasglu arian i Rhown Derfyn ar Dlodi.

Penwythnos hanesyddol wrth i Gymru ennill y Gamp Lawn a gobeithio bydd Teulu Twm yn cyfrannu at greu hanes eu hunain wrth i bobl ar draws y byd eleni geisio rhoi terfyn ar dlodi. Os hoffai unrhyw un gyfranu at yr achos yna cofiwch am y bandiau gwyn gellir eu prynu o Oxfam, neu ewch i wefan yr ymgyrch:
www.makepovertyhistory.org

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

NABOD Y FRO
Brynhawn Sul Ebrill 24 aeth criw o aelodau a chyfeillion Clwb y Dwrlyn ar daith gerdded o gwmpas yr ardal. Dan arweiniad Don Llewellyn mae'r daith gerdded wedi dod yn eitem flynyddol boblogaidd yng nghalendr y Clwb ac ni'n siomwyd y tro yma eto pan ddaeth rhyw 30 o oedolion a phlant ynghyd. Ymwelwyd â rhai o ffermydd hynafol Pentyrch gan aros hwnt ag yma am air o eglurhad neu stori gan Don cyn gorffen ar ben y Garth. Diolch Don am brynhawn difyr iawn ac, unwaith eto, am gadw'r glaw i ffwrdd!

CROESO NÔL
Croeso nôl i Gareth Thomas, mab Don a Trish, Pen-y-waun, ar ôl ei daith o gwmpas y byd.
Llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei swydd newydd yn ysgol Thomas Jones, Amlwch.

LLONGYFARCHIADAU
i Siân Williams, merch John a Gwyneth ar ei dyweddïad â John Bryant. Mae Siân yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Aberdâr a John yn athro Hanes yn Aberhonddu.

Llongyfarchiadau hefyd i Awen Penri, Pantbach, ar ennill gradd MBA a dymuniadau da iddi yn ei swydd yn ELWA.

DYMUNIADAU DA
Dymunwn adferiad llwyr i Gareth Huws ar ôl ei lawdriniaeth. Hoffai Gareth a Morfydd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fe'u gwerthfawrogwyd yn fawr.

CYDYMDEIMLAD
Mae'n siŵr bod darllenwyr y Tafod wedi clywed neu ddarllen rhai o'r llu teyrngedau sydd wedi eu cyflwyno i Gwynfor Evans ac wedi ymdeimlo â'r golled i'r genedl. Fodd bynnag, yn uwch na dim, colli tad wnaeth Branwen, Craig y Parc. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi a'r teulu yn eu galar.

YSGOL PONT SIÔN NORTON

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
Llongyfrachiadau i'r Côr Adran a'r Cyflwyniad Dramatig ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir a dymuniadau gorau iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd.

Priodas
Llongyfarchiadau i Mrs Lowri Harris (Davies) ar ei phriodas gyda Robert Harris ar Ddydd Sadwrn y Pasg. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Samantha Cook (Jones) ar ei phriodas gyda Simon Cook ar Ddydd Llun y Pasg. Dymuniadau gorau iddynt.

Ar Ebrill 29ain fe briododd Rhiannydd Jones, ysgrifenyddes yr ysgol gyda Geraint. Llongyfarchiadau iddynt hwy hefyd.

Chwaraeon
Chwaraeodd tîm pêl-rwyd yr ysgol yn erbyn ysgolion Trerobart, Cefn a Threhopcyn. Dyma'r canlyniadau:
Trerobart 10 Pont Siôn Norton 4
Cefn 3 Pont Siôn Norton 7
Trehopcyn 10 Pont Siôn Norton 4
Daliwch ati ferched.

Mae bechgyn Blwyddyn 5 a 6 yn cael eu hyfforddi yn wythnosol mewn sgiliau pêl-droed gan hyfforddwyr o Cardiff City. Mae eu sgiliau pêl-droed yn gwella'n wythnosol.

Clwb Canu yr Ysgol
Bu aelodau Clwb Canu yr Ysgol yn diddanu'r henoed yn Aspen House ac yng Nghanolfan Gymunedol Cilfynydd yn ddiweddar. Braf oedd gweld mwynhad y gynulleidfa wrth wrando ar y plant yn canu.

Yr Heddlu
Daeth PC Siân Jones i'r ysgol i siarad gyda'r plant. Siaradodd gyda phlant cyfnod allweddol 1 am 'bobl sy'n helpu yn y gymuned' ac am fwlio gyda chyfnod allweddol 2.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Jayne Rees

Pob lwc
Mae Siwan Francis, Parc Prospect, Graigwen yn aros i fynd mewn i Ysbyty'r Waun, Caerdydd i gael llawdriniaeth ar ei chalon. Pob dymuniad da am wellhad buan .

Llwyddiant cerddorol
Llongyfarchiadau i Huw Blainey, Lanwood Road, Graigwen-derbyniodd glod yn ei arholiad piano Gradd 4 yn ddiweddar. Pob hwyl iti wrth gystadlu ar y piano yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Clwb y Bont
Cynhelir noson "Eurovision" nos Sadwrn, Mai 21ain yn y clwb. Dewch i wylio'r gystadleuaeth flynyddol yn fyw ar y sgrîn fawr. Cewch fabwysiadu gwlad yn Ewrob a'i chefnogi yn ystod y nos! Gwobr i'r wlad lwyddiannus. Bwffe ar gael. Am fwy o fanylion ffoniwch 01443 491424

Cydymdeimlad
Yn sydyn ,ym mis Ebrill, bu farw Ros Clarke, Lanwood Road, Graigwen. Yn gyn-athrawes bu Ros yn weithgar iawn fel un o famau plant cyntaf Ysgol Evan James. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i gŵr, John a'r plant, Hannah ac Ian.

Cylch Ti a Fi
Croeso cynnes i blant bach a'u rhieni i ymuno â Chylch "Ti a Fi" yn festri Capel Sardis , Pontypridd. Maent yn cwrdd bob Dydd Llun (heblaw am wyliau ysgol) am 1.30p.m. - 3.00p.m.

Am fwy o wybodaeth - cysylltwch â Sherrie - ffon- 07813026250

Ffarwel
Ffarwel a diolch yn fawr am eu gwaith i Sarah Beech a Siân Thomas a fu'n gweithio yn yr ysgol am ddau dymor fel cynorthwywyr athrawon. Dymuniadau gorau iddynt yn eu swyddi newydd.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Priodas Nia a Matthew
Llongyfarchiadau i Nia Edmunds a Matthew Thomas ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl, Ddydd Sadwrn, Ebrill 2ail. Merch ifanca' John a Pat Edmunds, Pen y waun yw Nia ac mae Matthew yn enedigol o Lantrisant ac yn fab i Jeff a Karen Thomas.

Edrychai Nia'n hyfryd mewn gwisg o sidan lliw ifori. Y morwynion oedd Kathryn Thomas, chwaer Matthew, Leanne Williams a Sue Fosset. Roedd y dair yn gwisgo gwisgoedd llaes o sidan coch lliw ceirios.

Y gweision priodas oedd Dean Holder a Simon Ball a'r tywysydd oedd Andrew Thomas, brawd Matthew.

Yn ystod y gwasanaeth a weinyddwyd gan Y Parchedig D. Eirian Rees cafwyd darlleniadau gan Daniel Morrison a Jonathan Llewellyn. Yr organydd oedd Carey Williams a chafwyd datganiad ar y delyn gan Alys Gwyneth.

Mwynhawyd y wledd briodas yng Ngwesty Coed y Mwstwr ac aeth y par ifanc ar eu mis mel i Interlaken yn Y Swistir.

Athrawes yn Ysgol Gynradd Penderyn, ger Aberdar yw Nia ac mae Matthew yn beiriannydd yn ardal Pen y bont ar Ogwr.

Pob dymuniad da i'r ddau a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau i Owen Thomas, mab Judith a John Llywelyn Thomas, Nantcelyn ar ei benodiad yn athro yn Adran y Dyniaethau yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Bydd Owen yn dechrau ar ei waith ym Mis Medi.

Croeso adre'
Croeso adre' i aelodau Côr Merched y Garth a'u ffrindiau o'u taith i BATAGONIA dros wyliau'r Pasg. Yn ôl pob son roedd hi'n daith fythgofiadwy.

Twmpathau Diogelwch
Byddwch yn ofalus wrth yrru drwy'r pentref o hyn ymlaen gan fod y Cyngor wedi gosod rhyw un ar bymtheg o dwmpathau diogelwch yn y pentref. Mae'n debyg mai pwrpas y twmpathau yw arafu'r gyrwyr ar eu taith drwy'r pentref ond beth am y niwed i'r ceir ?

Yn bersonol 'dwi wedi gorfod cael "exhaust" newydd ar fy nghar am y tro cyntaf erioed. Sgwn i a'i cyd-ddigwyddiad yw hyn?

Y TABERNACL
Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mai.

Mai 1 af Oedfa Gymun o dan ofal ein Gweinidog.
Mai 8fed Y Parchedig Robin Samuel, Pen-y-bont-ar-Ogwr.
Mai l5ed Y Parchedig Eirian Rees
Mai 22ain Mr Geraint Rees, Efail Isaf.
Mai 29ain Y Parchedig Ifan Wyn Evans, Llangennech.

Bydd Y Parchedig Eirian Rees yn cyflwyno her ac apêl i'r eglwys ynglŷn â'i dyfodol ar Fore Sul, Mai 1af a Bore Sul Mai l5ed ac wedyn bydd cyfle i drafod y cyflwyniad ar Nos Sul, Mai 8fed a Nos Sul Mai l5ed am 6 o'r gloch. Y gobaith yw gweld pob aelod yn bresennol.

Ysgol Gymraeg Garth Olwg

Gwellhad Buan
Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'n Pennaeth, Mr Elwyn Hughes. Rydyn yn gweld eich eisiau yn fawr, Mr Hughes.

Adeiladau dros dro
Erbyn hyn mae plant yr Adran Iau wedi ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd yn yr adeilad dros dro. Bu llawer o waith pacio cyn y gwyliau!

Cwis Llyfrau
Bu criw o Flwyddyn 6 wrthi'n galed yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer y Cwis Llyfrau. Llongyfarchiadau i Owain Dafydd, Rhodri Rees, Samuel Gill, Lowri Hill, Stephanie Jenkins a Rebecca Cumpston a fu'n astudio dwy nofel yn hynod fanwl.
Ein diolch iddyn nhw ac i Mr Meredith am yr holl waith caled.

Criw Craff
Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Criw Craff yn Nhrefforest ar Ebrill 18fed. Cawson amser arbennig o dda yno.

Rygbi
Llongyfarchiadau i dîm Rygbi bu'n cystadlu mewn pencampwriaeth rygbi'n ddiweddar. Cafodd y bechgyn gryn lwyddiant draw yn Llanharan gyda sawl buddugoliaeth.

Pêl- droed
Bu tîm pêl-droed Garth Olwg yn chwarae yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r bechgyn a fu'n cystadlu.

Ymweliad yr Heddwas Siân Jones
Ar Ebrill 13eg bu'r Heddwas Siân Jones yn sgwrsio gyda phlant C.A.1 am ei gwisg. Mawr oedd mwynhad pawb.

YSGOL HEOL Y CELYN

Diwedd tymor diwethaf bu pedwar o blant o flwyddyn 5 yn ymweld â Phentre Ifan gyda Mr Leader am dridiau. Bu y plant yn ymweld â Llangrannog, Parc Heatherton, Tŷ Ddewi ac aethant i nofio. Roedd y plant wedi mwynhau yn arw ac wedi cael profiadau gwerthfawr a gwneud ffrindiau newydd gyda phlant o Ysgol Evan James a Garth Olwg. Diolch i Mr Leader am fynd a hwy.

Mae Cynllun Llythrennedd wedi cael ei ddechrau yn yr ysgol gan `Family Learning' ble mae grŵp o blant o'r babanod a'r rhieni yn gweithio gyda'i gilydd yn yr ysgol gyda'r fenter i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Pob lwc iddynt a gobeithio bydd y cynllun yn llwyddiant mawr.

Chwaraeodd tîm pêl-rwyd yr ysgol gêm yn erbyn Ysgol Coedpenmaen cyn diwedd y tymor ond yn anffodus colli oedd eu hanes o 9-0, ond dim ots ferched, gwell lwc y tro nesaf. Roedd tîm rygbi'r ysgol wedi dod yn ail yn nhwrnament rygbi'r Urdd, enillon nhw 4 gêm i ddod yn gyntaf yn eu grŵp ond bu iddynt golli yn erbyn Evan James yn y ffeinal. Da iawn fechgyn a Mr Coole am eu hyfforddi.

Ni chollodd tîm pêl-droed yr ysgol gêm yn nhwrnament pel-droed `Cardiff City' chwaith, bu iddynt ennill 2 gem a chael sgôr gyfartal mewn 3 gêm. Eto da iawn chi fechgyn.

Cafodd yr ysgol lwyddiant mawr yn yr Eisteddfod Sir yn Aberdar gyda nifer o eitemau yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod yng Nghaerdydd. Cafwyd cyntaf gyda'r Parti Llefaru iaith gyntaf, Parti Llefaru i ddysgwyr, Ymgom i ddysgwyr, Ymgom iaith gyntaf, Cân Actol, Parti Cerdd Dant, Dawnsio Gwerin dan 10 a 12 oed, Lucinda Childs yn Llefaru i ddysgwyr dan 10 oed a Rachael Williams yn Canu yn unigol dan 10 oed. Da iawn bawb, plant ac athrawon am eu gwaith caled a phob Iwc yn yr Eisteddfod yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.

Cafwyd llwyddiant gyda chystadlaethau Celf yr Urdd hefyd gyda Amy Davies yn cael cyntaf yn Lluniadu 2D blwyddyn 3 a 4, Amber Whiles yn cael cyntaf gyda Serameg/Crochenwaith i flynnyddoedd 3 a 4,Charlotte Davies yn cael cyntaf gyda Serameg/ Crochenwaith blynyddoedd 5 a 6 a Hollie Sheppard yn cael cyntaf yn Lluniadu 2D i flynnyddoedd 5 a 6.

Cafodd nifer eraill o'r disgyblion ail neu drydydd felly da iawn pawb.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Diolch
Diolch yn fawr am gefnogaeth rhieni'r ysgol y tymor diwethaf ac yn arbennig i aelodau'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau am drefnu digwyddiadau hwyliog i'r plant ar gyfer y Pasg. Roedd yr Helfa Wyau Pasg a'r Disgo yn llwyddiannus iawn.

Ymweliad
Daeth Carl Palmer o elusen Marie Curie i siarad ai r adran Iau, am beryglon ysmygu. Bydd y plant yn derbyn ffurflenni casglu arian tuag at yr elusen.

Gweithgareddau allgyrsiol tymor yr Haf
Bydd gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol yn ail-gydio unwaith eto y tymor yma. Bydd clwb yr Urdd, clwb Tenis, Criced ac Athletau yn digwydd ar brynhawniau Mawrth a Mercher.

Cerdded Noddedig
Mae'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau yn trefnu Cerdded Noddedig i godi arian tuag at yr ysgol prynhawn dydd Gwener Ebrill 29. Nod y gymdeithas eleni yw prynu bwrdd gwyn rhyngweithiol arall i'r ysgol.

Cwis Llyfrau 2005
Llongyfarchiadau mawr i Nia Lewis, Rhiannon Bodman, Ashtonn Jenkins a Taylor Morgan o Flwyddyn 6 am lwyddo yn rownd gynta'r cwis llyfrau eleni. Roedd ysgolion Cymraeg o siroedd Caerffili, Pen-y-bont a RhCT yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth a bydd ysgol Castellau ynghyd ag ysgol Caerffili ac ysgol Cynwyd Sant yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol yn Aberystwyth ym mis Mehefin yn erbyn ysgolion o dros Gymru gyfan. Diolch i Mr Davies a Mrs. Pickard am eu hyfforddi a phob lwc yn y rownd nesaf.

Nia Lewis, Rhiannon Bodman, Ashtonn Jenkins a Taylor Morgan

Canlyniad Cystadleuaeth Rygbi Cynradd Yr Urdd, Caerdydd a'r Fro

Cyntaf - Ysgol Gwaelod Y Garth; Ail - Ysgol Y Wern. Bydd y ddwy ysgol yn cynrychioli'r Sir yn y rownd derfynol genedlaethol ar Barc y Strade ar ddiwedd mis Ebrill.

Cefnogwch
Y CYMRO
Papur Cenedlaethol Cymru ers 1932. Ffonwich Edwina 01970 615000 am fanylion tanysgrifio.

Taith i Batagonia

Er bod aelodau Côr Merched y Garth wedi cael teithlen fanwl yn disgrifio pob diwrnod o'r daith i'r Wladfa dros y Pasg doedd neb wedi disgwyl gymaint o groeso a mwynhad a thywydd braf wrth fynd ar daith mor bell.

O fewn oriau i'r côr gyrraedd Buenos Aires, prifddinas yr Ariannin, roedd rhai o siaradwyr Cymraeg y ddinas wedi dod draw i'n gwesty i'n croesawu ac am sicrhau ein bod yn gweld y ddinas ar ei gorau. Ac fe gafwyd tri diwrnod arbennig yn crwydro'r ddinas a deall ei hanes - Eva Peron, Clwb pêl-droed y Boca, y Tŷ Opera, Tango a stêcs.

Hedfan ymlaen am ddwy awr i Esquel yn yr Andes. Roedd yr awyren wedi glanio fel sach o datws ar y maes awyr gwyntog ond roedd croeso arbennig yn ein disgwyl yng Nghanolfan Gymraeg Esquel. Cafwyd noson hwyliog o ganu yng nghwmni Côr Cymraeg Esquel a nifer o ddysgwyr Cymraeg ac yna swper ardderchog.

Roedd Cwm Hyfryd ar ei orau wrth i ni deithio i weld y rhaeadrau yn Nant y Fall a chlywed am draddodiad tyfu gwenith yn y Felin Fach. Ac roedd y te Cymreig yn Casa de Te Nain Maggie wedi plesio pawb yn arbennig y rhai oedd yn hoffi'r dewis enfawr o gacennau.

Roedd rhaid paratoi ar gyfer taith gerdded hir y diwrnod canlynol ac fe'n cludwyd ar y bws ar hyd lonydd caregog i rai o olygfeydd gogoneddus yr Andes. Roedd y tywydd yn berffaith a'r eira ar y mynyddoedd yn adlewyrchu yn y llynnoedd glas. Cerdded am filltir i'r cwch ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces ac yna hwylio ar draws Llyn Menéndez i droed y rhewlif ac i lanfa'r parc natur. Cerdded am ddwy filltir arall i weld y condor yn hedfan yn fygythiol, rhagor o fynyddoedd a chyrraedd coed llarwydden uchel enfawr - y mwyaf ohonynt dros ddwy fil o flynyddoedd oed.

Roedd y daith nesaf yn fwy hamddenol - ar drên stem La Trochita i Nahuel-Pan. Cael cyfle i weld rhagor o ran uchaf Cwm Hyfryd a'r mynyddoedd o'i hamgylch a chlywed caneuon gan frodorion Indiaid cyn cyrraedd pentref Nahuel Pan, pentref Indiaid anghysbell ar wastatir diffaith gwyntog a chael cyfle i brynu eu nwyddau pert traddodiadol.

Roedd cyngerdd arbennig ar noson olaf ein hymweliad â'r Andes yn Nhrevelin. Yno y gwelwyd ysgol fach gyda 70 o ddisgyblion yn dysgu siarad Cymraeg ger hen gapel Bethel. Gwelwyd hen dy Taid, John Daniel Evans, a chlywed hanes y ceffyl Malacara ac ymweld ag Amgueddfa Trevelin yn yr hen felin. Roedd y neuadd yn llawn ar gyfer y cyngerdd ac yn ogystal â chlywed Côr Merched y Garth ar ei gorau cafwyd eitemau gan Meinir Heulyn ar y delyn a gan gôr cymysg a ffurfiwyd gyda'r gwŷr oedd wedi ymuno ar y daith. Ac i ddilyn, pryd bwyd ardderchog arall a chanu i sain yr accordion.

Er mai ddim ond hanner y daith oedd wedi ei gwblhau yn Nhrevelin roedd rhaid cyflwyno anrhegion arbennig i Eleri a Rae am eu gwaith yn trefnu'r daith. Roedd llyfr Rocky Trip newydd ei gyhoeddi - mae'n llawn lluniau a hanes y mewnfudo i'r Wladfa. Roedd yn gyfle hefyd i ddiolch i Catrin Morris am ei gwaith yn sicrhau fod y côr yn cael gofal arbennig ar hyd y daith

Ar draws y paith i'r Camwy y mis nesaf.

Y Côr yn Esquel

Llinos yn arwain

Lago Menéndez

Capel Bethel, Trevelin

Teledu Esquel yn dilyn hynt y côr

Mwynhau yn Nhrevelin

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Cylch Meithrin Creigiau
Mae Cylch Meithrin Creigiau wedi ail-agor! Mae'n cael ei gynnal pedair gwaith yr wythnos o ddydd Llun hyd ddydd Iau, o 9.30 y bore tan 12.00 yn Neuadd y Sgowtiaid, Creigiau. Rydym yn cynnig gweithgareddau cyffrous - digon o baent, tywod, clai, canu, bwyta, darllen, sgwrsio - i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg! Dewch i ymuno yn yr hwyl a'r dysgu! Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ceri Roberts ar 02920 890009.

Llongyfarchion …
...i Astrid Morgan, 4, Llys Gwynno, ar ennill ei Gradd 5 Piano yn ddiweddar. Da iawn ti! Dal ati i ymarfer.

Llongyfarchion …
... hefyd i Colin Williams sydd wedi treulio blynyddoedd maith yn ymarfer! Sicrhaodd Colin 'dwll mewn un' ar Gwrs Golff 'Rolls of Monmouth' tra ar ddiwrnod allan gyda'i gyfeillion Gwilym Treharne a Simon Westphall yn ddiweddar. Ac i'r anoracs - y pedwerydd twll ar ddeg oedd e, sy'n 150 llath o hyd!

Llongyfarchion …
...Anwen ac Ian ar enedigaeth Gwen Mair - chwaer fach hyfryd i Siôn, Tŷ Hyfryd.

Cydymdeimlad
Ychydig yn ôl bu farw yr Athro Dodson, cyn ddarlithydd Almaeneg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, tad Tîm a thad-cu Rhian a Siân. Cydymdeimlwn â'r teulu yma'n y Creigiau. Bydd enw'r Athro Dodson yn gyfarwydd i lawer athro Cymraeg ail-iaith oherwydd y 'dull dysgu dwyieithog' neu 'ddull Dodson' - eponymaidd - a oedd yn rhan o hyfforddiant athrawon ail-iaith yn y saithdegau.

Gwellhad llwyr a buan …
... i Owain Griffiths. Bu Owain ddewr ddigon anffodus i dorri ei goes tra'n chwarae i dîm pêl-droed Pentyrch ychydig yn ôl. Anfonwn ein dymuniadau gorau ato gan obeithio na fydd yn hir cyn dod 'n ôl ar ei draed gan fod ganddo lawer o ddigwyddiadau pwysig yn ei ddyddiadur yn y dyfodol agos! Brysia wella, Ows!

...i Jonathan Thomas, Llys Gwynno hefyd - gafodd ddamwain yn ddiweddar a niweidio ei goes. Brysia wella, Jon i ti gael bod 'n ôl ar y trac athletau 'na cyn bo'n rhy hir.

Y 'Great Welsh Run' er mwyn Sian!
Mae'n dymor gwisgo'r sgidie rhedeg, glei! Ar yr ail o fis Mai bydd y ras uchod yn cael ei chynnal o gwmpas Caerdydd, a hyn am y pedwerydd tro. Trefnwyr y 'ras' yw'r Gymdeithas Cystic Fibrosis, a'r bwriad yw codi cymaint ag y bo modd o bres i gynorthwyo gwaith y Gymdeithas hon. Mae'r clefyd Cystic Fibrosis yn hynod o gyffredin ym Mhrydain Fawr ac fe effeithir dros 7,500 o blant a phobl ifanc gan yr aflwydd. Ar hyn o bryd does dim gwella o'r salwch a nod y Gymdeithas yw ariannu ymchwil pellach er mwyn ceisio darganfod ateb i' r afiechyd.

Bydd dwy ras ar yr ail o Fai - ras 5 milltir a 'ras hwyl', 2k o hyd. Yn y 'ras hwyl' bydd teulu cyfan o Maes y Dderwen yn rhedeg er mwyn codi cymaint o arian ag sy'n bosib at yr achos - Ann a Phil Angell, a'u meibion, Tomos sy'n 7 oed a Daniel sy ond yn 5 oed ac yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Creigiau. Mae'r achos yn agos iawn at galon y teulu yma gan y byddant yn rhedeg dros Sian, nith Ann. Merch ifanc o Alltyblacca ger Llanybydder, yw Sian, sy'n dioddef o'r cyflwr Cystic Fibrosis. Mae Sian wedi wynebu llawer o driniaethau dros y blynyddoedd, yn Llundain a Chaerdydd fel ei gilydd. Cefnogwch Sian, cefnogwch 'deulu'r Angell' - os am addunedu pres, ffoniwch Ann ar 02920 892698. Pob lwc, bawb!

A sôn am redeg …
...croeso adre i Eurof Davies, Cwrt Tregarth! Tipyn o orchest! Wedi llwyddo i redeg marathon Llundain unwaith eto! Llongyfarchiadau

Eurof Davies

Eurof, nid yn unig ar yr orchest ond am lwyddo i godi dros £500 ar gyfer Apêl Arch Noa. Ar y pnawn Sul yr 17eg o Ebrill roedd dros 36,000 o redwyr yn aros i Syr Steve Redgrave ddechrau marathon Llundain ac yn eu plith roedd Eurof. Ar ôl misoedd o redeg ar hyd strydoedd Creigiau a Phentyrch roedd hi'n amser profi'r ffitrwydd. A ma' Eurof yn ffit! Llwyddodd i orffen mewn 3 awr a 33 munud. Amser gwych! Er mai hon oedd yr wythfed marathon iddo redeg yn cynnwys Efrog Newydd a Brwsel, dyma'r cyflymaf iddo redeg marathon Llundain sy'n profi bod modd gwella 'da oedran! Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac os am gyfrannu ymhellach - cysylltwch â'r Tafod. Ni chlywodd Sarah, ar ôl iddo orffen, y geiriau 'byth eto' felly ymlaen â'r ymarfer ac i'r ras nesa!

Gwyl Berfformio Caerdydd
Dros gyfnod y Pasg bu llawer iawn o ddigwyddiadau celfyddydol yn cael eu cynnal yn ac o gwmpas Caerdydd. Un digwyddiad arbennig o gofiadwy ydoedd cynhyrchiad Ysgol Gyfun Stanwell, Penarth o'r sioe eneiniedig 'Jesus Christ Superstar'. Fuodd na'm gwell perfformiad yn y West End! Janice Richards, Llys Dyfodwg yw Pennaeth gweithgar yr Adran Gerdd a hithau oedd Cyfarwyddwr cerdd y sioe lwyddiannus hon fu'n rhedeg am wythnos gyfan gyda phob un sedd wedi'i gwerthu. Portreadwyd Judas gan Dai Richards, mab Janice ac Ian - roddodd berfformiad anhygoel o afaelgar. Dymunwn yn dda i Dai wrth iddo yntau ddilyn ôl traed ei frawd mawr, Gareth sydd eisoes wedi cael rhannau mewn sioeau yn y West End ar ôl iddo ef raddio o Goleg Cerdd a Drama, Caerdydd. I'r

Dai Richards

Conservatoire yn Guilford bydd Dai yn mynd mis Medi nesa i ddilyn cwrs perfformio. Lwc dda iddo a llongyfarchiadau ar ennill ysgoloriaeth.

Codi cwr y llen ar ein prifddinas

Mae eleni yn flwyddyn o ddathlu i'n prifddinas - bydd hi'n dathlu ei phen blwydd yn hanner cant fel prifddinas Cymru ond yn fwy na hynny gan mlynedd yn ôl derbyniodd yr hawl i alw ei hun yn ddinas. Un sy am ddathlu'r penblwyddi ymhellach yw Dave Thompson, Maes y Nant, trwy gynnig cyfle i ni drigolion yr ardal a chyfeillion o bell i ddod i adnabod Caerdydd yn well. Mae Dave yn cynnig teithiau cerdded go arbennig - cyfrwng Cymraeg a Saesneg - o gwmpas mannau llai cyfarwydd Caerdydd. Cysylltwch ag ef er mwyn trefnu taith ar gyfer eich cymdeithas, eich dosbarth, eich cylch o ffrindiau. Ymwelwch â'r wefan www.cardiffhistorytour.com neu ffoniwch Dave ar 07906 276187 am ragor o fanylion.

Dave Thompson

Symud tŷ

Pob hapusrwydd i deulu'r Cook's yn eu cartref newydd ym Mharc y Fro. Braf cael Rhys, Sara ac Adrienne yn ôl yn y pentref.

Lemwn i lanhau'r gwaed

Os hoffech chi wybod ychydig bach mwy am yr olewydd naws mwyaf poblogaidd sydd ar gael yn y siopau, darllenwch y gyfres yma gan Danny Grehan sydd yn gweithio fel aromatherapydd/tylinydd deithiol. Enw ei gwmni yw Iechyd Da (am wybodaeth ewch i'w wefan – iechydda.com).

Lemwn (citrus limon) yw'r degfed olew naws i ni edrych arno fe. Dim ond yn yr oesoedd canol y daeth defnyddioldeb y lemwn yn gyfarwydd i Ewrop, wedi iddo ddod o Asia yn wreiddiol. Defnyddiwyd hi at bob math o anhwylderau, ond mae'n fwyaf enwog o bosibl am drin scurvy ar longau rhyfel Lloegr. Wedi profion mor bell yn ôl â 1698 dywedwyd bod lemwn yn dda at lanhau'r gwaed a'i fod yn helpu treulio bwyd. Cynhyrchir yr olew trwy wasgu croen y lemwn.

Mae olew lemwn yn wych am ladd bacteria ac yn gallu hybu celloedd gwyn y corff - sef y celloedd hynny sydd yn amddiffyn y corff rhag heintiau. Mae'n gwneud y stumog yn fwy alcalin sydd yn llesol i anhwylderau fel gowt a crud cymalau. Mae'n dda os ydi lefelau eich colesterol yn uchel, ac os ydi lefel braster eich gwaed yn uchel. Yn yr un modd mae hi'n olew defnyddiol i drin cellulite.

Mae'r olew yn gweithio fel tonig i'r system cylchrediad gwaed, ac yn gallu helpu trin gwythiennau faricos a hefyd pwysau gwaed uchel. Mae'n wych ar gyfer croen seimllyd, ac oherwydd ei fod yn antiseptig mae'n dda at drin toriadau i'r croen.

Mae'n olew digon diogel, ond yn gallu achosi adwaith i rai pobl. Oherwydd ei fod yn adweithio i olau'r haul mae'n well i beidio â'i ddefnyddio ar y croen cyn mynd i'r haul.

Mae'n cymysgu'n dda iawn gydag olewydd eraill megis bergamot, eucalyptus, thus, sinsir, lafant, rhosyn ac ylang-ylang.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth ar sut i ddefnyddio'r olewydd.

Mis nesaf…pupur du.

Hyfryd eiriau Heddwyn!

Braf oedd clywed llais Mr Heddwyn Richards ar Radio Cymru yn sgwrsio mor wybodus ac eto mor rhwydd gyda Hywel a Nia un bore. Sgwrsio oedd y bonwr am un ymhlith llawer o ddiddordebau sydd ganddo - sef 'Llestri Gaudy Welsh'. Difyr dros ben - yn arbennig hanes y 'dowry'!.

Ysgol Gyfun Llanhari

Arolygwyr Arholiadau

Hoffech chi helpu'r Ysgol dros gyfnod yr Arholiadau eleni ?

Rydym yn awyddus i adeiladau tîm o bobl i gynorthwyo athrawon yr Ysgol yn y broses o arolygu Arholiadau allanol eleni. Byddai'n golygu bod yn rhan o'r tîm a fyddai'n bresennol yn ystafell yr arholiadau yn sicrhau bod yr arholiad yn mynd yn ei flaen mewn awyrgylch dawel a threfnus. Byddai'n golygu peth gwaith gweinyddol hefyd fel dosbarthu'r papurau arholiad a'u casglu a'i gwirio ar ddiwedd yr arholiad.

Mae'n waith eithriadol o bwysig i ni fel Ysgol a byddem yn gwerthfawrogi yn fawr pe bai rhai ohonoch chi ddarllenwyr yn gallu ein cynorthwyo. Mae cyfnod yn yr Arholiadau yn ymestyn o Fai hyd ddiwedd Mehefin. Rhoddir hyfforddiant i bob aelod newydd o'r tîm. Telir yn ôl yr awr.

Diddordeb?? Os ydych chi'n credu y gallech ein helpu am y cyfnod i gyd neu am ran o'r cyfnod, beth am alw neu ffonio i gael sgwrs pellach am y gwaith? Cysylltwch â'r Pennaeth – Ms T. Anne Morris 01443 237824. Byddwn yn falch iawn i glywed gennych!



Croeso
Croeso yn ôl i Mr Evans, Pennaeth yr ysgol. Mae'r staff a'r plant mor falch o'i weld yn ôl ar ôl ei salwch. Croeso yn ôl hefyd i Mrs Lewis sydd wedi bod yn sâl am sbel. Mae'r athrawon yn hapus oherwydd mae hi'n weithwraig mor dda.

Gwyliau yn Seland Newydd!
Mae Ella a Megan Clements wedi mynd efo'u rhieni i Seland Newydd am y tymor i weld eu perthnasau. Eisoes rydym wedi derbyn cerdyn post yn yr ysgol yn dweud eu bod nhw'n cael amser da, a'u bod nhw wedi galw yn Sydney i weld y tŷ Opera a bod eu mam a'u tad wedi dringo Pont yr Harbwr yno.

Llongyfarchiadau!
Llongyfarchiadau i rieni plant yr ysgol a phawb o'r ardal a oedd wedi rhedeg y marathon yn Llundain ar yr 17eg o Ebrill. Fe ddaeth Hannah Davies Dosbarth 3 â medal ei thad i ddangos i'r Dosbarth. Da iawn chi i gyd!

Dewis Llyfrau
Diolch i Ddosbarth 3 am helpu Mrs James ddewis rhai llyfrau darllen. Roedd yn rhaid i'r plant roi eu barn ar y llyfrau. Dewison nhw Gelert, Y Crwban a'r Ysgyfarnog, Yr Hwyaden Hyll, Melangell a Hwiangerddi. Fe fyddan nhw ar werth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Pêl-Rwyd
Ddydd Iau 21ain o Ebrill roedd tîm pêl rwyd yr ysgol wedi chwarae yn erbyn tîm pêl-rwyd Radur. Cyfartal 4-4 oedd y sgôr ac roedd y gêm yn wych . Roedd y tywydd yn braf ac roedd Mrs Morgan a Mrs Hussey yn blês iawn . Roedd yna lawer o gefnogaeth gan y rhieni . Siôn Cox a Kendra Theaker sgoriodd y pedair gôl . Gweddill y tîm oedd Gabby Cugno, Owen Morgan, Becky Williams, Llinos Honeybun ac Ellie Richardson.. Y darn gorau oedd cael diod o sudd oren a bisgedi ar ddiwedd y gêm.

Clwb Garddio
Mae'r clwb garddio wedi ail ddechrau y tymor hwn. Mae'r athrawon wedi bod yn helpu i chwynnu ac i gael yr ardd yn bert am yr haf.

Pili-palod
Cyhoeddodd Mr Evans drwy system sain yr ysgol fod y pili-palod wedi cyrraedd yr ysgol ac maen nhw ar y bwrdd yng nghyntedd yr Adran Iau Saesneg. Mae pawb yn edrych ymlaen at y dydd pan fydd y cacynau wedi troi yn bili-palod ac yn cael eu gadael yn rhydd.

Comisiynydd Plant Cymru
Fe ddaeth Mr Peter Clark Comisiynydd Plant Cymru i ymweld â'r ysgol Ddydd Iau 14eg o Ebrill. Mae e wrth ei fodd yn cael ei dywys o amgylch ysgolion yng Nghymru. Siaradodd Mr Clark gyda'r plant, yr athrawon a'r llywodraethwyr. Aeth o amgylch pob dosbarth o Ddosbarth 1 i Ddosbarth 6 o Class 1 i Class 7.

XL Wales
Ddydd Mercher y 13eg o Ebrill fe ddaeth Mrs Carbis o XL Wales i helpu Class 7, Class 5 a Dosbarth 6 i weithio trwy ddefnyddio K'nex a modur K'nex. Fe greon ni barc thema trwy adeiladu chwyrligwgan neu olwyn fawr y ffair. Roedd hi'n amlwg fod pawb wedi mwynhau, a phawb wedi dysgu sut i ddefnyddio K'nex yn iawn.

Tag Rygbi
Yn ystod yr wythnos fe fu plant Blwyddyn 5 yn ffodus iawn i gael y cyfle i chwarae tag rygbi amser cinio gyda Mr Evans yr athro. Buon nhw yn ymarfer pasio a chwarae gemau ffug. Fe fwynhaodd pawb ac maen nhw'n edrych ymlaen at y wers nesa.

Sioe Melangell
Fe aeth Dosbarth 4 i weld sioe gerdd o'r enw Melangell yng Nghasnewydd. Roedd y sioe yn sôn am ferch a ddaeth i Gymru a gwneud ffrindiau gyda'r anifeiliaid oedd yn byw yna. Pan ddaeth yr heliwr i hela'r anifeiliaid un diwrnod, gwelodd y ferch a syrthiodd mewn cariad. Tua diwedd y sioe, priododd y ddau yng Nghymru.

Mr Pervoe
Daeth Mr Pervoe, tad-cu Alex a Lauren Moore i siarad â Dosbarth 4 am Islam. Fe ddaeth â llun enfawr o'r mosg, a llawer o gardiau gydag ysgrifennu Arabaidd arnynt a llyfr mawr i blant. Roedd y llyfr yn sôn am y Qur'an. Cafodd Dosbarth 4 hwyl yn dysgu am Islam.

Yr Armada
Mae'r Armada wedi cyrraedd Dosbarth 4 - o 1588! Mae'r plant yn edrych ymlaen at chwarae ar y llong yn eu hamser chwarae rôl. Thema Dosbarth 4 yw'r Tuduriaid.

Gwersi Criced
Ar yr 21ain o Ebrill fe ddaeth Mr Morgan o Glwb Criced Creigiau i roi gwersi Criced Carlam. Dim ond pump ddaeth i'r wers gyntaf ond gobeithio y bydd mwy o blant yn dod i'r gwersi nesaf er bod nos Iau yn brysur iawn yn yr ysgol.

Craig y Parc
Ddydd Iau yr unfed ar hugain o Ebrill 2005, fe aeth aelodau'r Côr, y parti unsain, un unawdydd a'r parti llefaru ar y bws o Ysgol Creigiau i Ysgol Craig y Parc i ddiddanu'r plant yno. Roedd pawb wedi gwneud eu gorau glas ac roedd y rhaglen yn amrywiol a diddorol. Mwynhaodd pawb, plant Creigiau, plant Craig y Parc a'r athrawon i gyd hefyd!

Eisteddfod Sir yr Urdd
Fe gafodd bawb hwyl yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar y pedwerydd ar bymtheg o Fawrth. Cafodd Nia Jones drydydd am lefaru dan 8 a Jess Horsey drydydd am yr unawd dan 12. Fe ddaeth Joshua Morgan yn gyntaf am ganu dan 10 a chanodd y Côr mor dda nes enillon nhw'r wobr gyntaf, a phob lwc iddyn nhw a Joshua ym mis Mai, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

DA IAWN CHI I GYD!

PAPUR DYDDIOL CYMRAEG: Y BYD

Boddi mewn emosiwn, alcohol a dagrau - neu sefydlu menter o werth parhaol i'r iaith?

Rhaid i ni godi £70,000 cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod 'na un papur newydd yng Nghymru sy'n perthyn i'r Cymry. **Mae £230,000 gennym yn barod**. Dyma'ch cyfle i sgorio mwy na chais dros Gymru!

Cliciwch ar http://www.ybyd.com/buddsoddi.shtml - am wybodaeth ynglŷn ag ymuno â'r Clwb Cefnogwyr ac am fuddsoddi yn y fenter gyhoeddi Cymraeg fwyaf cyffrous erioed.

Os ydych wedi ymuno â'r Clwb Cefnogwyr a/neu wedi buddsoddi yn barod, DIOLCH YN FAWR!!!

Tîm Y BYD
Dyddiol Cyf.
Canolfan Mercator, Y Buarth,
Aberystwyth, SY23 1NN
Ffon: 01970 621998
E-bost: neges@ybyd.com
http://www.ybyd.com

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Marwolaeth
Trist yw cofnodi marwolaeth Clive Woods. Defnyddiodd Clive egni diflino yn cefnogi a gweithredu ym myd gweithgareddau pêl-droed - ac mae'r ardal yn cydnabod ei gwerthfawrogiad iddo am ei ymdrechion di-baid yn y maes hwn. Estynnir cydymdeimlad didwyll at y teulu i gyd yn eu colled.

Capel Salem

Hyfryd yw deall fod Lynn a Peter Cutts wedi mwynhau tridiau o doriad yn Llandeilo i ddathlu pen-blwydd priodas. (Gwnant eu gorau i ddal fyny a'r Morsiaid!) Dymunwn y gorau posibl i Lynn a Peter yn y dyfodol gan obeithio'n wylaidd y byddant yn treulio blynyddoedd lawer yn ein plith.

Etholwyd Mr Huw Davies yn Ysgrifennydd newydd y Capel a diolchir iddo'n wresog am ymgymryd â'r dyletswyddau ac am ei barodrwydd hael i wneud hynny. Mae'r aelodau hefyd yn danfon eu dymuniadau gorau a chofion cynnes iawn at Gwyn Rogers, ein hysgrifennydd blaenorol, sy'n derbyn sylw ar hyn o bryd yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg. Yr un yw neges yr aelodau at Gwyn Thomas sy'n cael ei boeni gan anhwylder ac yn derbyn triniaeth.

Llongyfarchiadau i Gwyneth a Norman Rowlands ar ddod yn famgu a thad-cu i'w trydedd wyres. Mae merch fach yr un gan Christopher eu mab ac Alison eu merch yn barod. Yn awr, croesawn Cate Anwen ac estynnir ein llongyfarchiadau wrth gwrs i'w mam a'i thad - Jill a Colin. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu yn Llantarnam ger Casnewydd.

Hyfryd yw cofnodi'r gwahanol lwybrau mae cyn-aelodau eraill o Salem yn eu dilyn. Y mis hwn, tro Morgan, Katie a Gerwyn Williams - wyrion ac wyres Joan a'r diweddar Doug Williams a phlant Alison a Keith Williams Brynsadler yw hi. Mae Morgan, sy'n astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Bryste, wedi ei ddethol i gymryd blwyddyn i ffwrdd o'i gwrs i wneud ymchwil firolegol. Yn ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio'r Gyfraith mae Katie ac yn chwarae yn nhîm rygbi'r Coleg. Para'n yr ysgol, yn y chweched flwyddyn, mae Gerwyn ond a'i fryd ar wasanaethau cymdeithasol. Dyma amrywiaeth ddiddorol iawn o fewn cenhedlaeth ifanc o'r un teulu. Pob dymuniad da i chi'ch tri.

Priodas
Ar Sadwrn cyntaf Ebrill priododd Rhys Davies a Janet Allen yn Salem. Mae'r cysylltiad rhwng Rhys a Salem yn un clos gan fod ei hen dad-cu yn un o Ymddiriedolwyr Salem. Symudodd mam Rhys, a gafodd ei geni yn Nhŷ Capel Salem, i'r Affrig ond daeth Rhys yn ôl i Gymru i briodi â Chymraes. Dymuniadau gorau i'r ddau ifanc a chroeso cynnes yn ôl.

Y Gymdeithas:
Treuliwyd noson ddifyr iawn o dan arweiniad Audrey Lewis pan drefnodd "Cwis" ar Fyd Natur. Aethpwyd adre'r noson honno tipyn yn gyfoethocach o ran ein gwybodaeth am adar.....gan gofio fod llawer o rheiny'n y Gymdeithas yn barod!

Addas, a braint, fu treulio cyfarfod ola'r mis yn talu teyrnged i'r diweddar Gwynfor Evans. Dolen gyswllt o fewn y noson oedd yr hanes am Norman Rowlands yn treulio orig yn ei gwmni uwch cwpaned o de pan oedd y ddau dipyn yn iau.

Llongyfarchiadau i Shirley Rees ar ei phen-blwydd a hwnnw'n garreg filltir o ben-blwydd. Mae'n hyfryd i gofnodi fod Shirley'n para i fod yn frodwaith o ynni gyda'i diddordebau'n ymestyn dros ystod eang. Rhaid cydnabod hefyd y gefnogaeth dibendraw mae Shirley, a Bill, wedi ei roi ac amrywiaeth helaeth o achosion gyda'u hymdrechion dros addysg Gymraeg yn yr ardal ar ben y rhestr. Diolch a phob dymuniad da am flynyddoedd eto o weithredu dygn.

Dathlu
Dymuna Howard a finne ddiolch o waelod calon i bawb a ddanfonodd gyfarchion atom ar ben-blwydd ein priodas. Peidiwch becso dim os na wnaethoch hyn gan ein bod bellach yn byw mewn bynglo! Ymhlith y negeseuon hyfryd daeth y canlynol i law,-

Nid rhwydd yw cyrraedd rhuddem - hir barhad
I'r par a ofynnem,
A lwcus iawn pe cawsem
Stamina a lot o stêm.

A wnaiff "Talcen Slip Tonteg" gnocio'n y drws os gwelwch yn dda!

Merched y Wawr Cangen Tonysguboriau

Llongyfarchiadau i Brenda Jones o Donteg ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth i gynllunio cerdyn Nadolig a drefnwyd gan Merched y Wawr.

Bydd ei cherdyn hi yn un o ddau a fydd ar werth cyn y Nadolig. Mae Brenda yn aelod o gangen Merched y Wawr Tonysguboriau.

CAPEL SALEM TONTEG MAI 2005

GWASANAETHAU CYMRAEG
DYDD SUL 9.30 -10.30am
01/05/2005 - Parch Peter Cutts (Cymundeb)
08/05/2005 - Aelodau
15/05/2005 - Dwyieithog - 11.00am - Cinio Ffydd - 12.00 canol dydd
22/05/2005 - Aelodau
29/05/2005 - Parch Peter Cutts

Y GYMDEITHAS GYMRAEG
POB NOS WENER 7.00 - 8.30pm
Cyfle i gymdeithasu a mwynhau cwmni Cymry Cymraeg.
Siaradwr/wraig gwadd pob mis - dyddiad i'w gadarnhau.
CROESO CYNNES I BAWB
(02920 813662

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

CYSYLLTIAD CYMUNEDOL, BYWYD GWELL A BLAENAU'R CYMOEDD

Un lle, lle mae pobl yn dod at ei gilydd i weithio o blaid yr ardal ydy Consortiwm Bywyd Gwell Rhondda Cynon Taf sy'n ceisio sicrhau bywyd gwell i drigolion y sir. Fel rhan o gefnogaeth y Fenter i'r prosiect dwi'n cadeirio is-bwyllgor bach o'r enw "Cyswllt Cymunedol" sydd wedi paratoi canllawiau drafft i helpu grwpiau cymunedol weithio yn well, caniatáu i fwy o unigolion ymwneud â'r prosiectau, cytuno agenda, datblygu gweithgareddau a newid y ffordd rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau bywyd gwell. Wrth gwrs, dwi'n ceisio sicrhau mwy o weithredu dwyieithog ond rydym hefyd yn ceisio gwneud yn siŵr bod pob elfen o'r gymuned yn cael chwarae rôl.

Bydd nifer o Bartneriaethau gwahanol yn derbyn copi drafft o'r canllawiau yn fuan – os ydych chi'n cael copi, ceisiwch ddilyn y canllawiau i wybod sut mae'n nhw'n gweithio. O fewn y trafodaethau y mae prosiect newydd Blaenau'r Cymoedd sydd i fod i adfywio Blaenau'r Cymoedd ar hyd y ffordd rhwng Glyn Ebwy ac Hirwaun. Mae cyfeiriad at adfywiad diwylliannol felly byddwn yn cynnig bod mentrau'r ardal yn cyfrannu at ddatblygu yr ochr yma o'r gwaith.

PARTNERIAETH POBL IFANC

Dyma bartneriaeth arall sy'n datblygu yn sgîl llwyddiant cydweithrediad y Fenter ac Urdd Gobaith Cymru gyda Chyngor Sir Rhondda Cynon Taf o dan yr enw CIC. Y mae gennym le nawr ar Bartneriaeth Pobl Ifanc Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn bwysig iawn mewn sawl ffordd. Er fod 13.5% o bobl yn siarad Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf y mae 30% o bobl ifanc yn medru'r iaith oherwydd gwaith gwych Mudiad Ysgolion Meithrin ac ysgolion yr ardal. Gwnaeth adroddiad diweddar gan Estyn nodi nad oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y Partneriaeth Pobl Ifanc, yr arian sy ar gael i waith ieuenctid Cymraeg nac ychwaith y gwaith ieuenctid sy'n cael ei wneud. Mae sawl cam wedi eu cymryd i geisio newid hyn – y mae prosiect Recr8 neu Sbardun fel y mae'n cael ei alw yn Gymraeg yn datblygu gyda phenodiad gweithiwr ieuenctid Cymraeg yn Rhydywaun ac mae Dyfrig Morgan a finnau yn cael chwarae rôl ar y Bartneriaeth Pobl Ifanc. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i adroddiad Estyn ac rydym yn gobeithio cynyddu'r sylw at y Gymraeg.

DYSGWYR YN ELWA O GYDWEITHIO MENTER A CYD

Mae dysgwyr yn bwysig iawn yn yr ardal yma. Mae hyn yn deg mewn ffordd oherwydd bod cymaint ohonyn nhw gyda 1,000 o bobl yn cofrestru mewn gwersi Cymraeg bob blwyddyn yn Rhondda Cynon Taf. O safbwynt y Fenter y mae'r gymuned yma yn un o'r cymunedau o ddiddordeb rydym wedi clustnodi o dan gynllun Cymunedau Yn Gyntaf ac felly y mae cydweithio gyda CYD, a'r Consortiwm Dysgu Cymraeg i Oedolion yn darparu, yn golygu pwerdy go iawn o blaid y dysgwyr. Mae Sadwrn Siarad wedi'i drefnu ar 21ain Mai 2005 yn Aberaman a rhai eraill i ddilyn yn Rhondda a Thaf-Elái. Mae'r dysgwyr yn llifo i mewn gyda phobl yn e-bostio, ysgrifennu a glaw i mewn i'n swyddfeydd i drefnu lle ar y dyddiau hyn. Mae modd i chi drefnu eich lle – a thalu gyda cherdyn – gan ffonio 01685 877183. Mae'r boreau coffi yn llawn o hyd. Mae nosweithiau CYD yn profi yn llwyddiannus iawn. Bu 76 o ddysgwyr i weld Noson Lawen S4C yn ddiweddar ac rydym yn gobeithio y bydd Noson Lawen Parti Ponty ar 1af Gorffennaf yn y Miwni gyda Heather Jones, Alun Tan Lan, Ieuan Rhys, Corau lleol ac eraill yr un mor boblogaidd. Erbyn hyn y mae tri phwyllgor dysgwyr gyda'r Fenter yn cyfarfod yn rheolaidd yn Rhondda, Cynon a Thaf-Elai.

PARTI PONTY 2005

Mae'r trefniadau ar y gweill i sicrhau llwyddiant Parti Ponty unwaith eto eleni. Bydd nosweithiau yn Y Miwni ar 1af ac 2ail Gorffennaf a dyddiau yn y parc ar 2ail a 3ydd Gorffennaf. Radio Red Dragon fydd yno ar y Sul gyda sesiynau pop dwyieithog ac y mae GTFM yn debygol o gefnogi'r dydd Sadwrn. Bydd llwyfan fawr gydag adloniant Cymraeg trwy'r dydd, dydd Sadwrn, a llwythi o wahanol stondinau yn ôl ein harfer. Os ydych chi am gael stondin neu am ddarparu eitem llwyfan ffoniwch ein swyddfa ar 01443 226386 er mwyn trefnu eich lle.

ADFER DISGOWNT Y CYNLLUNIAU CHWARAE

Newyddion o lawenydd mawr i lawer o rieni ydy cael gwybod ein bod wedi adfer disgownt i'r ail blentyn o un teulu fynychu ein cynlluniau chwarae dros y Sulgwyn. Cynhelir ein cynlluniau yn ôl ein harfer yn Abercynon, Bronllwyn, Llanhari a Rhydfelen am dridiau hanner tymor sef 1af, 2ail a 3ydd Mehefin. Mae modd trefnu lle gan ffonio 01443 226386 er mwyn i'ch plant chi fwynhau chwaraeon, nofio, bwyd y byd a joio, joio, joio!

AGOR CLWB CARCO LLANTRISANT

Mae'r clwb carco yma wedi agor ac yn llwyddo yn rhyfeddol o dan arweiniad Alyson Hurst gyda chefnogaeth Sarah Hanspal. Rydym yn chwilio am aelod arall o staff i ymuno â'r clwb yma felly rhowch wybod os ydych â diddordeb mewn gweithio tua 12.5awr yr wythnos mewn awyrgylch braf, naturiol Cymraeg o fewn adeilad ysgol newydd sbon tanlli! Ffoniwch 01443 226386

CYNLLUNIO DYFODOL I'R FENTER

Bu tipyn o drafodaethau yn ddiweddar. Yn sgîl llwyddiant sesiynau agored llynedd a fynychwyd gan Owen John Thomas AC, Ann Clwyd AS a Kim Howells AS yn ogystal â channoedd o bobl yr ardal rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tebyg ar ddechrau'r Hydref. Ym mis Hydref hefyd bydd cyfarfod blynyddol y Fenter – ie, dwi'n gwybod nad oes neb yn hoffi pwyllgora ond RHAID gwneud os ydych chi eisiau dyfodol i'r Gymraeg – ac y mae croeso i bobl newydd ymuno a'r pwyllgor. Pe bai gennych chi ddiddordeb rhowch alwad i mi ar 07976 167086 a chewch wybod mwy yn anffurfiol

NEWIDIADAU STAFF

Croeso i Nicola Evans o Gwm Clydach Abertawe (o na! ffan arall Tîm Pêl-Droed Dinas Abertawe!) sydd newydd gael ei phenodi yn Gydlynydd Ieuenctid CIC yn lle Dewi Phillips sydd wedi mynd at Brifysgol Cymru Aberystwyth. Dymuniadau gorau hefyd i Aneirin Karadog sydd wedi ymuno â chwmni teledu Tinopolis i lawr yn Llanelli. Bydd, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn fuan. Rydym hefyd yn gobeithio penodi Cydlynydd Plant newydd yn fuan

STEFFAN WEBB
PRIFWEITHREDWR MENTER IAITH

Aderyn Prin y Cymoedd

Nid pawb o gymoedd y de sy'n sylweddoli pa mor hynod yw'r cymoedd hynny. Fel y profodd yr awdures Manon Rhys, efallai bod angen gadael yr ardal ac yna dychwelyd er mwyn ei llawn gwerthfawrogi. Aeth nofel ddiweddaraf Manon, **Rara Avis,** â hithau yn ôl i'w hardal enedigol gan adrodd hanes merch ifanc, Branwen, a phrofiadau doniol a thrist ei magwraeth yn un o'r cymoedd glofaol yn y 1950au.

Ganwyd Manon, sy'n un o'r awduron uchaf ei parch yng Nghymru, yn Nhrealaw yng Nghwm Rhondda. Er ei bod bellach yn byw yng Nghaerdydd, ei gwreiddiau yn y cymoedd sy'n rhoi lliw a realaeth wrol i'r nofel hon. Yn rhyfedd ddigon, wedi iddi gwblhau'r nofel, canfu Manon fod hen gartref y teulu yn y Rhondda ar werth, a daeth y syniad o symud yn ôl yno i'w meddwl. Nid yw'n siŵr o hynny bellach; roedd pris uchel y tai yn sioc iddi - er bod hwnnw'n cymryd i ystyriaeth y golygfeydd syfrdanol dros y cwm. Erbyn heddiw, mae gwyrddni newydd yr hen ardaloedd glofaol wedi ei gwneud yn fwy dymunol i fyw mewn rhai rhannau o'r Cymoedd. Wrth gwrs, mae'r ardaloedd hynny'n gwbl groes i'w hatgofion hi o gwm mwy llwydaidd a llaith, fel yr un y mae Branwen yn byw ynddo.

Mae stori Branwen, er nad yw'n hunangofiannol, yn cynnwys llawer o atgofion personol yr awdures o'i magwraeth, felly adroddir y stori mewn dull credadwy iawn. Meddai Manon Rhys, "Mae'r nofel hon wedi bod yn chwyrlïo yn fy meddwl dros y ddwy flynedd diwethaf, a dyma hi o'r diwedd. Mae fy magwraeth innau yn y cymoedd wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor unigryw yw'r lle, ac rwyf wedi ceisio cynrychioli Branwen fel cymeriad unigryw hefyd, gan gadw hyn mewn cof."

Datgelir cymeriadau a phersonoliaethau gwahanol yn y nofel trwy amrywiaeth o leisiau – Cymraeg a Saesneg – sy'n cyfleu tafodieithoedd amrywiol cymunedau'r cymoedd yn y 1950au.

Yn ôl Manon, "Datblygodd yr ardal yn bair ieithyddol pan ddaeth mewnfudwyr o Brydain benbaladr a thu hwnt i fyw a gweithio yno. Ond rwy hefyd yn cofio clywed, yn blentyn, yr hen bobl yn siarad y 'gloran' neu dafodiaith Gymraeg wreiddiol y cymoedd. Roeddwn eisiau cyfleu'r holl amrywiaeth ieithyddol ryfeddol hon yn y nofel.

"Nid yw byd Branwen yn y nofel, gyda'i theimladau o 'fod yn wahanol' ac yn 'hynod' fel siaradwr Cymraeg, yn rhywbeth y byddai wedi dod wyneb yn wyneb ag ef i raddau mor helaeth pe bai wedi tyfu i fyny yn yr ardal heddiw, efallai. Yn hynny o beth mae'r nofel yn cynnig gobaith i unrhyw un sydd, fel Branwen, yn teimlo ar wahân rywsut i'w hamgylchfyd wrth dyfu. Adar o'r unlliw a hedant i'r unlle yw'r hen ddihareb, ac er bod Branwen yn aderyn prin – yn *rara avis* – yn ei chyfnod hi, yn ffodus i'r rheiny sy'n cael eu magu yno heddiw mae diadell Gymraeg y cymoedd yn fwy o lawer."

Rara Avis. Manon Rhys.
Gwasg Gomer £7.99

Noson Gwis

Menter Iaith a CYD

NOS FAWRTH 24 MAI 2005
I ddechrau am 7.30 o'r gloch
Yn Nhafarn y Baglan,
Penyrenglyn
Y Rhondda

DEWCH I GAEL NOSON O HWYL,
CWMNI CYMREIG
A BWYD BYS A BAWD

urdd.org

RHONDDA CYNON TAF

Mae'r Urdd a Chyngor Rhondda Cynon Taf yn cyd-weithio i ddod â hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'n canolfannau chwaraeon ac hamdden. Ewch amdani!

Clwb Kempo yr Urdd

Canolfan Chwaraeon Ystradyfodwg

Bob bore Sadwrn
Mai 7—Gorffennaf 16
09.30 – 11.00 yb

Bydd y clwb wythnosol yn cael ei gynnal yn ystod tymhorau'r ysgol ar gyfer bechgyn a merched blynyddoedd 4,5 a 6 o dan ofal Julie (hyfforddwr Kempo) ac hyfforddwyr profiadol eraill.

Cyfle gwych i feithrin medrau newydd Kempo / Kick Boxing a mwynhau ymarfer corff ardderchog!

Mae'r sesiyanu yn rhad ac am ddim! Niferoedd wedi'u cyfyngu i 30 o blant. Felly, cyntaf i'r felin yw hi …

Cadwch le cyn gynted â phosib! 01685 883955.

Cwmni ceginau yn Dathlu 30 Mlynedd

Mae cwmni Sigma 3 sydd a'i bencadlys yn Llantrisant wedi buddsoddi yn sylweddol mewn peiriannau newydd. Mae'r cwmni wedi bod yn gwneud dodrefn ceginau am 30 mlynedd ac wrth i'r farchnad fynd yn fwy cystadleuol mae'r cwmni wedi dyblu ei gynnyrch o 600 uned cegin yr wythnos i dros 1200 yr wythnos mewn dwy flynedd. Buddsoddwyd dros £1m mewn peiriannau cynhyrchu sydd yn cael eu rheoli gan gyfrifiaduron a chyflenwir y farchnad dai newydd yn ogystal â'r farchnad ail-osod ceginau.

Mae'r cwmni yn cyflogi 150 o bobl yn lleol ac yn ei arddangosfeydd yng Nghymru a Lloegr.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG EVAN JAMES

www.ysgolevanjames.co.uk

YMWELIAD
Daeth P.C. Sian Jones ar ymweliad i'r ysgol i siarad gyda phlant C.A.1 a blwyddyn 3 am ei gwaith yn y gymuned. Cafodd y disgyblion gyfle i'w holi hi am waith yr heddlu ac i drafod pa offer mae'r heddlu yn ei gario bob dydd. Cafodd y plant hwyl yn gwisgo gwisg yr heddlu a chyffion.

Dysgodd plant blwyddyn 6 am waith yr heddlu hefyd pan aethon nhw i ymweld a'r "Crucial Crew" ac fe gawson nhw wybodaeth am ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd a dynion tan.

AILGYLCHU
Mae dosbarth 14 yn dal yn ddiwyd yn hybu ailgylchu ac mae plant eraill yr ysgol yn brysur yn eu cefnogi.

YR URDD
Pob lwc unwaith eto i bawb fydd yn cymryd rhan yn Eisteddfod Yr Urdd eleni.

TWM TEDI
Mae plant y dosbarth derbyn yn mwynhau mynd a 'Twm Tedi' adref gyda nhw ac yna dod a'r tedi yn ol i'r ysgol i sôn am yr antur gawson nhw. Maen nhw'n edrych ymlaen at barti i groesawu 'Twm Tedi' i'w plith.

CHWARAEON
Llongyfarchiadau i dim pel-droed yr ysgol fydd yn mynd i Aberystwyth i gystadlu yn rownd derfynol cystadleuaeth Yr Urdd ac i'r tim rygbi aeth i'r Strade yn Llanelli i gymryd rhan yn y twrnament cenedlaethol.

Pob hwyl i'r tim pel-rwyd mewn cystadleuaeth yn Ysgol Trehopcyn. Mae timau chwech o ysgolion lleol yn chwarae yno.

Llongyfarchiadau i Joel Raikes a Seren Brown ar ennill y bencampwriaeth tenis bwrdd i blant blwyddyn 6. Daeth y chwaraewr tenis bwrdd adnabyddus Ryan Jenkins i ddyfarnu'r gem yn neuadd yr ysgol ar y bwrdd roddodd e i'r ysgol yn anrheg.

Penfro yn Hudo

Mae yna sawl llecyn hudolus yng Nghymru sy'n ysbrydoliaeth i feirdd, awduron ac artistiaid. Yn ddiau, mae sir Benfro gyda'i harfordir gwych a rhamant yr hen oes ym meini'r mynyddoedd yn un o'r lleoedd hynny. Dyna farn y prifardd Mererid Hopwood a'r arlunydd Fran Evans - y ddwy â chysylltiadau agos â'r sir. Gwelir ffrwyth dychymyg y ddwy ar waith yn y llyfr stori-a-llun hyfryd ***Yr Ynys Hud*** a gyhoeddir gan Wasg Gomer.

Fe dreuliodd yr arlunydd Fran Evans o Langwm ger Hwlffordd gyfnod yn gweithio fel warden ar ynysoedd Penfro fel paratoad ar gyfer llunio'r llyfr ac mae gwreiddiau teuluol Mererid Hopwood o Gaerfyrddin yn ddwfn ym Mhen Caer. Stori am yr ynysoedd hud oddi ar arfordir Penfro yw cefndir *Yr Ynys Hud*.

Pwy feddyliodd y gallai byd Gruff, a'i gi ffyddlon Tods, newid cymaint wrth ddod o hyd i ddarn disglair o arian ynghanol llwch marchnad Tyddewi? Ond mae'r darn arian hwnnw'n eu harwain ar antur ryfeddol yn llawn hud a lledrith, i'r ynys ddirgel sy'n gartref i'r tylwyth teg. Wrth eistedd fin nos yn ei fwthyn yn Nhre-fîn, mae Gruff yn meddwl am y rhyfeddodau mawr a welodd a'r gyfrinach y mae'n rhaid iddo ei chadw am byth.

Hyd yn oed yn ein byd soffistigedig ni yn yr unfed ganrif ar hugain, gall stori ramantus am y tylwyth teg fwrw ei swyn dros blant heddiw fel y gwnaeth drwy'r cenedlaethau a fu.
Yr Ynys Hud
Mererid Hopwood a Fran Evans
Gwasg Gomer £4.99

Mae Cwmaman ger Aberdâr yn le digon anodd i'w ffeindio a dim ond un ffordd sydd i mewn i'r cwm. Mae'n le oedd wedi ei anwybyddu am flynyddoedd ond roedd ganddo un adeilad nodedig - Yr Institiwt. Penderfynodd trigolion y pentref adnewyddu'r Institiwt a'i droi yn ganolfan gymunedol, cenedlaethol a rhyngwladol o bwys.

Uchafbwynt eu gwaith hyd yn hyn yw Gŵyl Ffilmiau Amgylcheddol Cymru a gynhelir yno o ddydd Mercher Mehefin 1 i ddydd Sul Mehefin 5. Fe agorir yr ŵyl gan Iolo Williams a bydd cyfres o ffilmiau a gweithdai dros gyfnod yr ŵyl.
Neuadd Gyhoeddus ac Institiwt Cwmaman
01685 887107 / 07766117400
www.cwmamaninstitute.co.uk

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Penwythnos Teulu i Langrannog
Mae'r Fenter wrthi'n trefnu penwythnos arall i deuluoedd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog fis Awst yma – Awst 15-17, 2005. Cyfle i Sgio, Nofio, Merlota, Gwibgartio,"Motorbeics", Cwrs Rhaffau, Cwrs Antur, Helfa Drysor, Trip i'r Traeth a llawer mwy… Am fanylion pellach neu am ffurflen gofrestru, cysylltwch ag Angharad yn y swyddfa.

Cwrs Ffrangeg Byr trwy gyfrwng y Gymraeg
Yn dilyn llwyddiant gwersi Sbaeneg y Fenter, rydym yn cychwyn cwrs 6 wythnos o Wersi Ffrangeg trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe fydd y cwrs yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Severn Rd, Treganna, ac yn dechrau Nos Fercher, Mehefin yr 8fed.
Cost y cwrs fydd £30. Fe fydd nifer cyfyngedig o lefydd ar y cwrs, felly am ffurflen gofrestru, cysylltwch â ni yn y swyddfa.

Cwis Cymraeg
Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Mai'r 22ain yn y Mochyn Du am 8yh. £1 y person.

EISTEDDFOD I GYMRU GYFAN URDD 2005 AR Y FFORDD I'R BAE

Criw Les Miserables yn paratoi

Mae'n argoeli'n dda am Eisteddfod yr Urdd mwy byrlymus nag erioed eleni, gyda rhestr hyd braich o ddigwyddiadau a gweithdai yn cynnig wythnos llawn hwyl ac adloniant i bawb.

Mae'r dewis yn ddiddiwedd i'r rhai sy' ddim yn cystadlu, neu os am roi cynnig ar rywbeth newydd rhwng rhagbrofion. Gallwch ymarfer eich ymennydd neu'ch cyhyrau – bydd gweithdai ar gael ar gyfer sgiliau syrcas, animeiddio, drymio neu ysgrifennu creadigol.

Bydd hyfforddiant dyddiol ar gael i ffans chwaraeon yn amrywio o ddringo a thrampolin i bêl droed a rygbi – er mwyn darganfod y Gavin Henson nesa, efallai! Ac wrth gwrs, bydd amrywiaeth eang o weithgareddau dŵr ar yr agenda.

Bydd sêr y byd cerddorol yn cynnal dosbarthiadau meistri gydol yr wythnos i helpu enillwyr ifanc yr Eisteddfod i ddatblygu eu talentau. Bydd Gwyn Hughes Jones wrth law i gynorthwyo'r genhedlaeth nesaf o denoriaid a Ieuan Llewelyn Jones yn hyfforddi'r offerynwyr ifanc.

Ac ar gyfer y rhai sy'n mwynhau adloniant ychydig yn wahanol, bydd drymwyr cyffrous Samba Gales wrthi'n perfformio a chonsurwyr a chlowniau yn dangos eu triciau.

Cofiwch bod tocynnau maes ar gyfer plant a chystadleuwyr yn hanner pris (dim ond £2 yr un) os archebwch ymlaen llaw. Mae tocynnau teulu ar gael hefyd ymlaen llaw am £20 ar gyfer 2 oedolyn a 2 blentyn, sy'n arbediad o £8.

DIGWYDDIADAU NOS WYTHNOS YR EISTEDDFOD

Arlwy amrywiol a chyffrous i dynnu dŵr o ddannedd unrhyw Eisteddfodwr!

Nos Sul 29 Mai – Cyngerdd agoriadol (mewn cydweithrediad ag S4C)
Nos Lun 30 Mai – Cystadleuaeth Cân Actol dan 12oed (Noddir gan Hugh James)
Nos Fawrth 31 Mai a Nos Fercher 1 Mehefin – Cwmni Theatr Genedlaethol yr Urdd yn perfformio Les Miserables: Fersiwn Ysgolion yn y Gymraeg am y tro cyntaf (Noddir gan HSBC, y Post Brenhinol)
Nos Iau 2 Mehefin – Cystadleuaeth Cân Actol dan 15 oed
Nos Wener 3 Mehefin – Cystadleuaeth Band/Cerddorfa dan 25 oed (Noddir gan Hugh James)

Mae'r rhain i gyd yn digwydd yn Theatr Donald Gordon, sef prif lwyfan Canolfan Mileniwm Cymru. Gellir archebu tocynnau drwy swyddfa docynnau'r Ganolfan ar 087 0040 2000, neu ar-lein o www.wmc.org.uk.

Ffoniwch 029 2063 5690 neu anfonwch e-bost i eisteddfod2005@urdd.org Cyn 6 Mai i fanteisio ar y cynnig yma.

Y Principality'n seren y sgrin fach!

Mae'r Principality wedi dechrau ymgyrch hysbysebu newydd i hyrwyddo cymdeithas adeiladu fwyaf Cymru ar ei newydd gwedd. Mi ail-lansiodd y gymdeithas ei delwedd newydd, fodern ar ddydd gŵyl Ddewi eleni, mewn ymdrech i ddenu cwsmeriaid newydd.

Mae'r ymgyrch yn cynnwys cyfres o hysbysebion teledu, a fydd yn ymddangos yn Gymraeg ar S4C ac yn Saesneg ar ITV Cymru o'r 25ain o Ebrill.

Cafodd yr hysbysebion eu recordio mewn nifer o leoliadau yng Nghymru sy'n adnabyddus i ni, gan gynnwys Penrhyn Gŵyr a gyda'r actores Lauren Phillips, cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Llanhari, yng nghanol Caerdydd. Maen nhw'n adlewyrchu cred y Principality bod angen darparu cyngor da, gonest a chynnyrch amrywiol i bobl Cymru.

Y bwriad yw dangos sut mae gwasanaethau'r Principality'n berthnasol i nifer o sefyllfaoedd bob dydd, a thrwy hynny atgyfnerthu'r neges mai'r cwsmer sydd wrth galon popeth mae'r Principality yn ei wneud. Mae yna hefyd bosteri, hysbysebion radio a theledu a nwyddau noddedig, fel bysus a thacsis.

Dywedodd pennaeth marchnata'r Principality, Jayne Robinson: "Mae gennym ni draddodiad cryf o ymddiriedaeth ymhlith ein cwsmeriaid. Rydyn ni'n credu bod yr ymgyrch newydd yma'n adlewyrchu personoliaeth y Principality ac yn atgyfnerthu'r neges fod gennyn ni nifer fawr o wasanaethau a chynnyrch sy'n ein gosod ar wahân i'n cystadleuwyr yn y farchnad ariannol yng Nghymru a'r gororau".

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

Sul y Blodau
Ar fore Sul 20fed o Fawrth cynhaliwyd yr orymdaith flynyddol o Eglwys Sant Alban Cwmlai i'r fam Eglwys Dewi Sant yn Nhonyreafail, ryw filltir o daith. Hyfryd oedd gweld fel oedd Eglwysi'r cylch wedi ymateb i'r apêl i ymuno yn y daith. Roedd y Parchedig Phillip Lewis Gweinidog Bethlehem Cwmlai a'r Parchedig Trevor Jones Gweinidog Salem Heol y Gilfach wedi dod â chynrychiolaeth dda o'r aelodau yno hefyd.

Ar ôl gwasanaeth byr yn Sant Alban cysegrwyd ffurf croes wedi ei gwneud o ddail palmwydd i'w dosbarthu ar y daeth i fyny i Dewi Sant. Roedd y gwasanaeth a chymun yno i gyd dan ofal Y Gwir Barchedig David Yeoman sydd yn un o blant Tonyrefail ag sydd yn Esgob cynorthwyol i Archesgob Cymru, Y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan. Roedd yn hyfryd ei weld yn gartrefol iawn ymysg ei ffrindiau.

Capeli Cymraeg Tonyrefail
Yn anffodus does dim un Capel nag Eglwys Gymraeg yn Nhonyrefail bellach ers pan gaewyd drysau Capel y Ton ddwy flynedd yn ôl.

Pan ddaethom fel teulu i Donyrefail yn y chwe degau cynnar roedd yma dri Chapel llewyrchus ag Eglwys yn gwasanaethu yn Gymraeg. Caewyd Bethel yr Annibynwyr yn y saithdegau, ond mae'r capel yn cael ei ddefnyddio gan y Pentecostaidd ers hynny. Tua'r un adeg caewyd Sant Ioan (Capel Bach fel y cyfeiriwyd ato yn hanes Y Parch William Evans Tonyrefail), mae yn fan cyfarfod y Sgowtiaid erbyn hyn. Caewyd Eglwys Fedyddiedig Ainon yn Mis Hydref 1990 a dymchwelwyd yr adeilad 1992. Caewyd Capel Y Ton ar y Sul olaf yn 2002 a saif yr adeilad heb unrhyw ddefnydd yn cael ei wneud ohono hyd yn hyn.

Capel Bethania, sy'n cael ei droi yn fflatiau

Mae'n debyg fod yna Gapel bach o'r enw Ebeneser wrth ymyl Ysgol Gynradd Cwmlai yn Heol Penygarreg. Yn ôl pob tebyg, cangen o Bethel oedd hwn a chlywais rhai oedd yn aelodau yno yn sôn fod neb llai nag Elfed wedi pregethu yno. Mae wedi ei ddymchwel heb unrhyw nod o'r fan.

Codwyd capel arall yn Tylchawen yn 1910 sef Bethania yn perthyn i'r Methodistiaid. Bu'r capel yn llewyrchus tan pedwar degau'r ganrif ddiwethaf, ond fe ddefnyddiwyd yr adeilad fel ffactri ac adeiladwyd estyniad anferth wrth ei ymyl. Erbyn hyn mae yno weithwyr yn ei droi yn fflatiau. Mae ffurf y Capel yn aros, a'r enw a'r dyddiad wedi ei sicrhau. Capel Cymraeg oedd Bethlehem Cwmlai i fod fel cangen i Ainon ond newidiwyd i achos Saesneg am fod mewnfudwyr wedi dod i'r ardal i weithio yng nglofa Cwmlai.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Iris Cope Llewelyn a'r teulu, Y Stryd Fawr Tonyrefail ar enedigaeth gorwyr Rhys Llewelyn ar 10fed o Ebrill. Mae mab Iris, David a'i wraig Lilwen brodor o Faesteg yn byw yn Surrey a'r mab Gareth a'i briod Kirstie yw tad a mam Rhys.

Mae Gareth a Kirstie, merch o Gaerdydd, yn byw tu allan i Gaerdydd.

Coffa da am Emlyn sydd wedi blaenu ers deg mlynedd. Byddai wrth ei fodd gyda'i orwyr. Bu'r teulu i gyd yn aelodau ffyddlon yn Ainon.

Geiriadur o dermau chwaraeon ac adloniant

Elusen gofrestredig yw NPFA Cymru sydd yn gwarchod meysydd chwarae Cymru ac yn sicrhau bod cymunedau trwy Gymru gyfan yn cael mynediad i gyfleusterau hamdden o'r safon uchaf - o fannau chwarae i blant i gaeau chwarae ar gyfer gemau oedolion ac ieuenctid.

Mae NPFA Cymru, mewn partneriaeth gyda Chyngor Iaith Ewropeaidd, wedi cynhyrchu geiriadur newydd o dermau chwaraeon ac adloniant, sydd ar gael ar safle gwe (www.playing-fields.com). Mae hyn wedi bod yn bosibl trwy nawdd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r geiriadur yn cynnwys dros 3,000 o dermau sydd wedi eu cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac o Saesneg i'r Gymraeg ac bydd yn fuddiol iawn i bawb sydd yn ymwneud â chwaraeon, adloniant a hamdden.

Menter Iaith - CYD
Sadwrn Siarad
Hen Ganolfan Aman, Cwmaman
21 Mai 2005

Safon 1, 2, 3
Defnyddio'r Gymraeg, Defnyddio'r Gymraeg Uwch

9.30am – 4.00pm
Gwersi, Coffi a Cinio £10.00
£5.00 i'r henoed a myfyrwyr sy'n derbyn budd-dal
Ffôniwch: 01685 877183 i drefnu lle

YSGOL GYFUN LLANHARI

Cystadleuaeth DT a Celf Eisteddfod yr Urdd.
Mae Amy Aldridge o Flwyddyn 8 wedi bod yn gweithio yn galed ar ei darn hi ar gyfer un o gystadlaethau DT a Celf yr eisteddfod. Y thema eleni yw Newid, ac mae Amy wedi penderfynu gwneud croglun o'r tymhorau yn newid. Mae hi wedi defnyddio nifer o ddulliau addurno ffabrig ac fe ddylai hi fynd ymlaen i'r genedlaethol gyda'r darn yma o waith.

Colli John Warburton
Gyda thristwch mawr clywsom am farwolaeth sydyn Mr John Warburton, Pennaeth Adran Technoleg Gwybodaeth ein hysgol.

Bu Mr Warburton yn athro yn yr ysgol am 17 mlynedd. Roedd yn berson cwbl ymroddedig i'w waith ac i Deulu Llanhari. Roedd yn uchel iawn ei barch ymysg ei gydweithwyr, disgyblion, Llywodraethwyr a ffrindiau'r Ysgol yn ogystal â chydweithwyr o fewn yr Awdurdod Addysg. Bydd pawb yn colli ei gyfeillgarwch, ei hiwmor a'i garedigrwydd hael.

Fel Ysgol, rydym yn ddyledus iawn i Mr Warburton am yr holl ddatblygiadau Technoleg Gwybodaeth arbennig sydd gennym o fewn yr Ysgol.

Fel arwydd o barch i'r aelod arbennig hwn o Deulu Llanhari caewyd yr Ysgol am sesiwn prynhawn yr angladd ar 16 o Fawrth.

Eisteddfod Sir yr Urdd.
Cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd ar Ddydd Gwener l8ed o Fawrth yn Ysgol y Cymer. Cafodd Llanhari lwyddiant yno, yn arbennig ar ein cystadlaethau drama a llefaru. Bydd gennym ni 15 cystadleuaeth i'w gwylio yn arbennig yn yr eisteddfod yng Nghaerdydd. Pob lwc a dymuniad da i bawb yno.

Twrnament Saith bob Ochr rygbi yn Hereford.
Fe fu disgyblion Blwyddyn 10 a Gareth Harvey a Deeke Morse o Flwyddyn 9 yn cystadlu yn erbyn 20 tîm rygbi arall ar benwythnos 19 ac 20 o Fawrth. Fe gollodd y tîm eu gêm gyntaf, ond wedyn fe enillon nhw pob gêm arall ac ennill y twrnament "Hereford Sevens". Roedd hon yn gystadleuaeth newydd, ac enw Llanhari fydd yn gyntaf ar y darian.

Sieciau y banciau tuag at y daith i Dde Affrica

Siec Apêl Tswnami

Jane Davidson A.C. gyda criw y daith i De Affrica.

Ymweliad Jane Davidson
Yn ystod mis Chwefror fe ddaeth y gweinidog addysg, Jane Davidson, i'r ysgol i gwrdd â'r disgyblion hynny sydd yn mynd ar daith pêl-rwyd a rygbi i Dde Affrig yn yr haf. Mae 40 o ddisgyblion o Flwyddyn 11 a 12 yn mynd ar y daith ac maent wedi bod yn gweithio'n galed yn codi arian. Ar 22 Mawrth cawsant rodd o £200 gan fanc HSBC a £500 gab Fanc NatWest tuag at eu costau. Diolch yn fawr i'r ddau fanc.

Apêl Tswnami
Ar ddydd Mawrth 22 o Fawrth fe roddwyd siec i fanc Barclays am £2,500 tuag at yr apêl Tswnami. Bu disgyblion yr ysgol yn gwisgo dillad anffurfiol am un diwrnod, fe fu aelodau o flwyddyn 8 yn gwerthu cacennau, aelodau o flwyddyn 12 yn gwerthu crysau T lliw llysoedd a'r adran Dechnoleg yn gwerthu bisgedi a dalwyr canhwyllau.

tŷ ar y tywod

CYNHYRCHIAD MINIOG O GLASUR GWENLYN PARRY. LLEOLIR TŶ AR Y TYWOD AR DRAETH, LLE MAE GWR Y FFAIR Â'I FRYD AR EHANGU'I FYD, A GŴR Y TŶ YN BENDERFYNOL O AMDDIFFYN YR HYN SY'N BWYSIG IDDO. MAE'R FRWYDR YN GWTHIO'R DDAU I'R EITHAF ...
CAST: DAFYDD DAFIS, CARYS ELERI EVANS, JONATHAN NEFYDD, MARED SWAIN, DAVE TAYLOR.
CYFARWYDDWR: JUDITH ROBERTS

Theatr y Sherman, Caerdydd

7.30 yh
Dydd Iau 26 — Sadwrn 28 Mai

Swyddfa Docynnau - 029 20 646900

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

DYN YN ACHUB CYMDOGION

Mae postfeistr a gripiodd deirgwaith drwy fwg trwchus i mewn i adeilad wedi achub bywydau ei gymdogion.

Pan ddihunodd David Carroll, 46 oed o Ffynnon Taf, yn oriau mân y bore roedd tân y drws nesa a churodd ar ddrysau'r fflatiau fel y gallai saith ddianc.

"Clywodd fy merch Siân y gloch yn canu am ugain munud wedi tri yn ein cartre yn Heol Caerdydd. Ar y dechrau, ro'n i'n meddwl fod larwm y swyddfa bost i lawr llawr wedi tanio.

"Pan gyrhaeddais i roedd drws y ffrynt ar agor a'r cyntedd yn llawn o fwg. Dywedodd Siân ei bod hi'n moyn mynd i mewn ond dywedais wrthi i fynd yn ôl i'r swyddfa bost.

"Prin o'n i'n gweld dim am fod y mwg yn drwchus. Ro'n i ar fy mhedwar drwy'r amser. Doedd rhai yn y fflat ddim yn sylweddoli eu bod mewn perygl. Ond roedd rhaid i fi fynd i mewn am fod pobol yn y fflatiau."

Dywedodd yr Arolygydd Mike Milton fod y tân yn amheus a'u bod yn ymchwilio.

GWAELOD Y GASGEN

Cafodd cwsmeriaid ffyddlon sioc yng nghanol yr wythnos ar Ebrill 20 am fod tafarn Ffynnon Taf wedi cau.

Deellir fod y busnes wedi mynd i'r wal. Dair wythnos yn gynt roedd cyfarfod mawr wedi bod rhwng y perchnogion a'r bragdy ond doedd neb o fragdy Ansell am wneud sylw ar y mater.

CAU RHAN O'R A470

Bu rhan brysura yr A470 ar gau am 12 awr ar ôl i gemegau ollwng.

Am ugain munud wedi tri y prynhawn ar Fawrth 22 cafodd dynion tân a'r heddlu eu galw ar ôl y ddamwain rhwng Ffynnon Taf a Thongwynlais. Roedd potasiwm hydrocsid wedi gollwng o ddrwm oedd ar ben lori a chafodd yr A470 rhwng Nantgarw a Coryton ei chau.

Bu dynion tân mewn dillad arbennig yn trin y cemegau a dywedwyd wrth drigolion yr ardal i gau eu ffenestri. Yn y diwedd daeth cwmni arbenigol o Loegr i helpu'r dynion tân.

Dywedodd yr heddlu nad oedd gyrwyr yn wynebu "problemau mawr". Ond ar un adeg roedd tagfa drwy Ffynnon Taf a Glan-y-llyn hyd at dafarn y Cross Keys yn Nantgarw.

CYN I'R LLEN GODI

Roedd datblygiad cyn i'r llen godi yn Theatr y Sherman. Y fenyw yn y rhes tu ôl yn cael siom. "Jiw, jiw, nage fe yw e te, y boi serchus heb wallt, ar y newyddion."

Ie, Gary Owen, oedd yr awdur, o Sir Benfro nage'r Hendy ger Llanelli. Cymro Cymraeg, medden nhw, er, hyd y gwn i, dyw e ddim wedi sgrifennu yn Gymraeg.

Cynhyrchiad trawiadol oedd *The Shadow of a Boy*. Digon i gnoi cnil arno a'r thema oedd shwd mae rhywun yn esbonio i grwt y gwir plaen, pa mor mor ofnadwy yw'r byd, heb hala ofon arno.

Gyda llaw, mae'n debyg i rywun roi cyngor i Gary – "byddai'n well iti fynd i Loegr os wyt ti am wneud dy farc." Diawl o linell dda ar ddiwedd yr Act Gynta ond un sy'n crynhoi pa mor drist yw sefyllfa dramodwyr Cymru.

CYRRAEDD YR UCHELFANNAU

Mae cwmni lleol yn dathlu ar ôl cael gwaith yn y Dwyrain Canol. CHSS ym Mharc Nantgarw sy wedi ennill cytundeb iechyd a diogelwch ym Maes Awyr Dubai lle mae'r nifer mwya o awyrennau Airbus A380.

"Byddwn yn cydweithio â Dar al-Handasah/Aeroport de Paris JV, yr ymgynghorwyr sy'n datblygu'r maes awyr," meddai llefarydd ar ran y cwmni. "Ers Gorffennaf 2004 ry'n ni wedi ennill £3m o gytundebau."

AGORIAD LLYGAD

Cyferbyniad. Rhwng menywod WI Cheltenham yn cloncan yn y caffi a'r llun enfawr ar y wal tu ôl iddyn – Tanc mewn Brwydr gan Frank Brangwyn. Ro'n i yn yr Amgueddfa Genedlaethol, i wylio arddangosfa.

Cyferbyniad arall - rhwng brawd a chwaer, Augustus a Gwen John. Fe'n darlunio ei deulu fel rhan anochel o gefn gwlad naturiol, lliwgar ond llawer o'i lluniau ohoni hi, ei chath, ei hystafell. Hwn yw'r tro cynta i luniau'r ddau gael eu dangos yn gasgliadol i'r fath raddau. Felly cyfle i ddilyn hynt eu gyrfaoedd a'r gwahaniaethau yn eu harddull.

Y ddau'n cael eu cysylltu â Dinbych y Pysgod ond yn Hwlffordd y cafodd hi ei geni cyn symud i'r dre ar lan y môr pan oedd yn wyth.

Ar y cyfan, roedd yn well 'da fi luniau Augustus John o bobol enwog y cyfnod, yn enwedig yr un o'r nofelydd Wyndham Lewis sy'n edrych fel Sbaenwr. Y Fonesig Gregory, noddwraig W B Yeats a Theatr yr Abbey yn Nulyn, gomisiynodd Augustus i wneud ysgythriadau o'r bardd ar gyfer cyfrol o'i gerddi.

Yn anffodus, ni chafodd y lluniau eu cynnwys yn y gyfrol. "Mae'r artist wedi gwneud imi edrych fel tincer, yn feddw, yn annymunol ac yn amharchus," meddai'r bardd.

Bydd yr arddangosfa yno tan Fai 15.

Herio Gwaharddiad

Mae chwe chwpwl yn herio'r llywodraeth yn yr Uchel Lys, gan gynnwys un o Gymru.

Y ddau yw Peter a Lesley Maksimovic o Ffynnon Taf sy wedi gwario miloedd o bunnau, medden nhw, ar geisio mabwysiadu plentyn o Cambodia. Cafodd tystystgrif ei chyflwyno cyn ei dileu.

Roedd y llywodraeth a gwledydd eraill y gorllewin wedi cyflwyno'r gwaharddiad am fod llygredd a chipio a gwerthu plant yn cynyddu yn Cambodia.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-garth, 10.30am. Mai 1: Y Gweinidog, Oedfa Gymun; Mai 8: Gwasanaeth Ardal;

⇒

CROESAIR COL

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 25 Mai 2005



Ar Draws

1. Tref yng Ngheredigion (10)
8. Cymryd fel patrwm, copio (7)
9. Gwawdio, di-ystyru (5)
10. Blagur, imp (5)
11. Pob person (4)
12. Ffrwyth y dderwen (3)
14. Ynfytyn, creadur gwirion (6)
15. Ffraethineb, ysmaldod (6)
18. Asgosáu, dynesu (3)
20. Wi, och (4)
21. Brodyr o Perw (4)
23. Derbynneb (5)
24. Cyfeiriad codiad yr haul (7)
25. Coedwigoedd bychan (10)

I Lawr

1. Dulliau o siarad (7)
2. Brenin yr adar (4)
3. Byddaf yn ymuno (6)
4. Bwrdd i chwarae gwyddbwyll (8)
5. Agwedd y corff (5)
6. Mynd ar daith i le cysegredig (11)
7. Sedd brenin (11)
13. Yr ymdeimlad o ddrwg a da (8)
16. Cerdded ar led (7)
17. Gwastadedd gogleddol yng Nghanada (6)
19. Ymwneud â, trin (5)
21. Gwastad, lefel (4)

⟹ Ffynnon Taf a Nantgarw

Mai 15: Y Parchedig Cynwil Williams, Cyrddau Mawr yn y bore a'r nos; Mai 22: Y Gweinidog; Mai 29: Y Parchedig Dafydd Owen.

CYLCH MEITHRIN Ffynnon Taf, 9.30-12, dydd Llun tan ddydd Gwener. Taliadau: £4.75 y sesiwn. Ti a Fi, 1.15-2.30 bob dydd Mawrth. Taliadau: £1.50 y sesiwn.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

ATEBION MIS EBRILL

	P	A	A		C		FF		A		O
	A		C	W	Y	N	O	S	F	W	T	D
	P		E		F		L		O			L
B	U	D	R	E	L	W	A		N	O	S	I
	R				I		N		F		T	
A	F	A	LL	E	N		T	R	A	LL	O	F
	R		A						R		M	
T	W	Y	N	E	N		S	Y	CH	I	A	D
	Y		A		O		A				T	
A	N	O	S		E	B	R	I	LL	A	I	DD
N			T		TH		H		E		T	
C	Y	F	R	A	N	I	A	E	TH		I	
R			U		I		D		R	A	S	

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

I'R CYHOEDDIAD HWN

www.bwrdd-yr-iaith.org

Stiwardio yn y Bae

Fyddech chi'n fodlon rhoi 'chydig o'ch amser i stiwardio yn ystod Steddfod yr Urdd Canolfan Mileniwm Cymru 2005 o'r 30 o Fai hyd y 4ydd o Fehefin?

Os da chi'n gweithio - mae'r dydd Llun yn ŵyl y banc, a mi yda ni'n chwilio am stiwardiaid ar gyfer cyngherddau gyda'r nos?

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Irfon Bennet ar 029 2063 5691.

Triniaethau Teithiol

Tylino Chwaraeon Aromatherapi

Tylino Pen Indiaidd Tylino Swedaidd

Iechyd Da

Danny Grehan ICHT. HFST

ffôn :

07881 607 723

ebost :

danny@iechydda.com

www.iechydda.com

Blaidd, ci a llond lle o anifeiliaid!

Gall anifeiliaid ein difyrru, esmwytho, arswydo, dychryn a gwneud i ni chwerthin hefyd. Un peth sy'n sicr, maen nhw yn medru dal dychymyg plant o bob oed. Dyna un rheswm pam fod cymaint o lyfrau am anifeiliaid ar gael ac fe dystia llyfrau newydd Gwasg Gomer i hynny.

'Mae'r bleiddiaid yn stelcian ar y mynyddoedd, yn udo am waed, yn ysu am frwydr.' Cymru tua'r flwyddyn 600 yw cefndir ***Castell y Blaidd*** gan Glenys Mair Lloyd, nofel i blant 9-11 oed. Yn ôl yr awdures, hanes bro ei mebyd yn Llanfyllin, Powys, a harddwch y wlad, ei chymeriadau, ei chwedlau a'i barddoniaeth oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r nofel. Merch a gipiwyd o fyd pobl yw Rina, prif gymeriad y llyfr, ac mae hi bellach yn byw yn 'Ogof y Bleiddiaid'. Rhaid iddi ddewis rhwng y ddeufyd erbyn diwedd y nofel. Mae Glenys Mair Lloyd yn byw ger Bangor ac yn gyn-athrawes Saesneg. Cyfres newydd o lyfrau i blant 9-11 oed yw *Swigod*, a *Castell y Blaidd* yw nofel gyntaf y gyfres.

Anifail dipyn fwy addfwyn a chwareus yw prif gymeriad ***Bili Jones, Seren*** gan Siân Lewis o Lanilar. Mae teulu'r Jonesiaid yn dalentog a phawb yn gallu gwneud rhywbeth arbennig! Hynny yw, pawb ond Bili'r ci. Felly mae'n penderfynu mynd am glyweliad ar gyfer sioe, ond mae'n cael ei siomi, druan. Daw Bili yn dipyn o arwr maes o law, ac fe ddaw pawb i wybod am ei gampau a'i foment fawr o enwogrwydd. Rhaid darllen y stori ddoniol hon yn y gyfres *Trwyn mewn Llyfr*, i blant 7-9 oed, i ddarganfod sut y daeth Bili'n seren.

Nid mam-gu gyffredin mo Magi Puw, mae ganddi siop yn llawn anifeiliaid o bob math, a'r hyn sy'n rhyfedd amdani, yw ei bod hi'n deall yr anifeiliaid!

Mae'r stori fywiog ***Joshua Rhys a'r Neges Frys*** gan Siân Lewis, i blant 5-8 oed, mewn odl drwyddi a'r lluniau lliwgar gan Gillian Roberts yn denu a difyrru yn syth.

Awn o'r jyngl yn stori Joshua i'r fferm ar y mynydd yn y stori hyfryd ***Beth sy, Jac?*** gan Rob Lewis o Landrindod a addaswyd i'r Gymraeg gan Elin Meek o Abertawe. Eto mewn odl, cawn holl anwyldeb anifeiliaid y fferm a stori garu arbennig iawn yn y llyfr hwn sy'n ddilyniant hyfryd i *O, Diolch Nain*.

Castell y Blaidd (Cyfres Swigod) Glenys Mair Lloyd £4.99
Bili Jones, Seren (Cyfres Trwyn Mewn Llyfr) Sian Lewis £3.99
Joshua Rhys a'r Neges Frys Siân Lewis a Gillian Roberts £4.99
Beth sy, Jac? Rob Lewis addas. Elin Meek £4.99 Gwasg Gomer

CORNEL Y PLANT

Lliwio Mr Urdd
Sawl ffordd wahanol ellwch chi liwio Mr Urdd gan ddefnyddio coch, gwyn a gwyrdd yn unig?



Mynd i'r Steddfod
Mae hi'n fore ac mae'r dillad ym mhobman. Fedrwch chi roi'r parau sanau gyda'i gilydd?

Beth sy'n wahanol?
Mae 10 peth yn wahanol yn y lluniau hyn. Fedrwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

Ydych chi'n gwybod ble mae Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn yma? Gobeithio y cewch chi fynd yno i weld sêr y teledu i gael hwyl a sbri ar y maes ac efallai i wrando ar rai yn cystadlu. Os ydych chi'n cystadlu, pob lwc i chi!

Y Beirniaid
Dyma lun o ddau feirniad ond roedd y camera'n rhy uchel. Fedrwch chi roi cyrff iddyn nhw?